

DWNED

Cylchgrawn Hanes a Llên Cymru'r Oesoedd Canol

ISSN 1361-360X

Golygyddion

Bleddyn Owen Huws

A. Cynfael Lake

Rhif 23

2017

Cyhoeddir *Dwned* gan y Golygyddion, Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DY. Argraffwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

(h) Y Golygyddion piau hawlfraint *Dwned*. Ni ellir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ddull na modd heb gael eu caniatâd ysgrifenedig hwy yn gyntaf.

Y Cynnwys

Llywelyn ab Iorwerth a'r Môr Coch: <i>Gwaith Dafydd Benfras</i> , Cerdd 19 RHIAN M. ANDREWS	11
<i>Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy—glew:</i> Rhai Agweddau ar Ddelweddaeth y Cleddyf ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol JENNY DAY	41
Dychan 'Celtaidd'? SIMON RODWAY	79
Sylwadau ar Rai o Linellau Dafydd Nanmor ALEXANDER FALILEYEV	121

Cyhoeddir y cylchgrawn hwn yn flynyddol. Anfoner pob cyfraniad at y Golygyddion, Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DY.

Byrfoddau

(i) Llyfrau a Chylchgronau

- Arch Camb* *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- B* *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bl B XIV* *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- BC* *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- BC²* *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)
- CCHSF* *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- CD* John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- CDG* *Cerddi Dafydd ap Gwilym*, gol. Dafydd Johnston *et al.* (Caerdydd, 2010)
- CLIGC* *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CHC* *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- CMCS* *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC* *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
- Cyd²* *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- DGA* *Dafydd ap Gwilym: Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG* *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DG.net* Gwefan Dafydd ap Gwilym, gol. Dafydd Johnston *et al.* <<http://www.dafyddapgwilym.net>>
- DrOC* *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWH* Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (4 vols., Aberystwyth, 1991–2006)
- G* *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)

- GCC* D. Simon Evans, *Gramadeg Cymraeg Canol* (Caerdydd, 1960)
- GDBM* *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GDC* *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDE* *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- GDEp* *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG* *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDGor* *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID* *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI* *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGDT* *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur ac Eraill*, gol. N. G. Costigan (Bosco), R. Iestyn Daniel a Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1995)
- GGGr* *Gwaith Gruffudd Gryg*, gol. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (Aberystwyth, 2010)
- GGH* *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D. J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGP* *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams a J. Llywelyn Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI* *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM* *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGMD iii* *Gwaith Gruffudd ap Maredudd III Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
- GG.net* Gwefan Guto'r Glyn, gol. Ann Parry Owen *et al.* <<http://gutorglyn.net>>
- GHC* *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)

- GHCLIE* *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- GHD* *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHDafi* *Gwaith Hywel Dafi*, gol. A. Cynfael Lake (dwy gyfrol, Aberystwyth, 2015)
- GHSD* *Gwaith Hywel Swrddwal a'i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH* *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIF* *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E. I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG* *Gwaith Iolo Goch*, gol. D. R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF* *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
- GIRh* *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLGC* *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLI* *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLM* *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLMorg* *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (dwy gyfrol, Aberystwyth, 2004)
- GLIGMH* *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLIGt* *Gwaith Llywelyn ap Gutun*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
- GMBen* *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2007)
- GMBr* *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMW* D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1970)

- GO* *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM* *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP* *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G. J. Williams ac E. J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC* *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC²* *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE* *Gwaith Syr Phylip Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- GRhGE* *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSCeri* *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSDT* *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSH* *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh* *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST* *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (dwy gyfrol, Caerdydd, 1980)
- GTA* *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (dwy gyfrol, Caerdydd, 1926)
- GTP* *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL²* *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A. O. H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- GyC* *Genres y Cywydd*, gol. Bleddyn Owen Huws ac A. Cynfael Lake (Talybont, 2016)
- ID* *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)

- IGE* Cywyddau *Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Caerdydd, 1925)
- IGE²* Cywyddau *Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- LD* *Heraldic Visitations of Wales*, ed. S. R. Meyrick (2 vols., Llandovery, 1846)
- LIC* *Llên Cymru*, 1950–
- LIU* Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- MFGLI* *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Aberystwyth, 1978)
- MWM* Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
- OBVV* *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- Ped* J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- PKM* *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- PWDN* *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff, London, 1923)
- RWM* *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- SC* *Studia Celtica*, 1966–
- TC* T. J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TCHSDd* *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- TCHSG* *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- THSC* *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TYP²* *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- TYP³* *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- WCD* P. C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)

- WG1 P. C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P. C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–

(ii) Llawysgrifau

- Ba Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
- Ba(M) Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, ym Mhrifysgol Bangor
- Bd Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Dinas Caerdydd
- Cw Llawysgrif yng nghasgliad Cwrt-mawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Gw Llawysgrif yng nghasgliad Gwysanau, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy—glew: Rhai Agweddau ar Ddelweddaeth y Cleddyf ym Marddoniaeth yr Oesoedd Canol

Ar ddiwedd caniad cyntaf ‘Gorhoffedd’ Gwalchmai ap Meilyr, a ganwyd tua chanol y ddeuddegfed ganrif yn ôl pob tebyg, ymffrostia’r bardd fod y Saeson yn crynu o flaen ei gleddyf (*lläin*):

Ac ar lles Owain hael hual dilin
Dychysgogan, Lloegr, rhag fy *lläin*!¹

Diau nad y *lläin* ei hun sy’n dychryn y Saeson, ym meddwl y bardd, ond yn hytrach y cyfuniad o arf da a rhyfelwr dewr a medrus. Â Gwalchmai rhagddo i ddisgrifio ei *gleddau* ar ddechrau’r caniad nesaf, a’r tebyg yw bod cyrch-gymeriad synhwyrrol yn cysylltu’r ddau ganiad; hynny yw, bod *lläin* a *cleddau* yn cyfeirio at yr un arf:²

Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy—glew,
Llewychedig aur ar fy nghylchwy.³

Yn y llinellau hyn adlewyrchir gallu milwrol a harddwch y bardd-rhyfelwr, fel petai, yn llafn ei gleddyf *llachar*, ac mae’r cleddyf yn ‘amddiffyn’ yn ‘felltennol’ fel pe bai’n rhyfelwr medrus ei hunan. Gwelir y math hwn o rannu nodweddiion rhwng dynion a’u harfau

¹ *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion*, gol. J. E. Caerwyn Williams, Peredur I. Lynch ac R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1994) [= *GMB*], 9.17–18.

² Ceir cyrch-gymeriad cyseiniol hefyd am fod cyseinedd rhwng *lläin* a *llachar*. Mae’n rhaid nodi nad yw *lläin* (na’r ffurf unsill *llain*) yn golygu ‘cledd(yf)’ bob amser, o reidrwydd; gw. Ifor Williams, *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938) [= *CA*], t. 85; *GPC*, d.g. *llain* (a) ‘Llafn, cleddyf, gwayw, gwaywffon’; Jenny Day, ‘Weapons and fighting in *Y Gododdin*’, *SC*, 49 (2015), 121–47 (tt. 126–7). Am achos arall lle awgryma’r cyd-destun mai cleddyf a olygir, gw. yr ymadrodd *glaslain* / *Ar glun* yn *Gwaith Cynnddelw Brydydd Mawr, II*, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995) [= *GCBM*, ii], 6.128–9. Mae lleoliad yr arf *ar glun* yn nodweddiadol iawn o gleddyf (gw. Day, ‘Weapons’, 127 (n. 35)).

³ *GMB*, 9.19–20 (‘Llachar yw fy nghleddyf, yn eirias yr amddiffynna [gŵr] dewr, / Llathraid yw[’r] aur ar fy nharian [gron]’; dyfynnir hwn, a’r aralleiriadau eraill a roddir isod, o’r golygiadau cyhoeddedig).

yn aml yn y farddoniaeth Gymraeg ganoloesol, ond nid dyma'r unig ddefnydd ffigurol a wneid o gleddyfau.⁴

Nod yr erthygl hon, felly, yw trafod nifer o agweddau ar ddelweddaeth a symboliaeth cleddyfau, gan ystyried arwyddocâd *topoi* cyffredin y cleddyf disglair, melltenol, fflamllud, miniog, euraid, treuliedig a thoredig, ynghyd ag agweddau ehangach ar y berthynas rhwng yr arf a'i berchennog. Ystyrir hefyd rai agweddau yr ymddengys iddynt gyrraedd eu llawn dwf yn gymharol ddiweddar yn yr Oesoedd Canol, gan gynnwys symboliaeth y cleddyf mewn perthynas â sifalri a Christnogaeth.

Mae 'Gorhoffedd' Gwalchmai yn gerdd anghyffredin o ran ei gwedd a'i themâu.⁵ Er rhoi rhywfaint o sylw i'w dywysog, Owain Gwynedd, i'w wraig Genilles, ac i brydferthwch byd natur, canolbwyntia'r bardd yn bennaf ar ei gannol ef ei hun; agwedd arall ar arbenigrwydd y gerdd hon yw rôl flaenllaw y cleddyf yn y darlun gwych a grëir o'r bardd-ryfelwr. Cyfeirir eto at ei offer ysblennydd ar ddechrau'r trydydd caniad:

⁴ Cf. Marged Haycock, 'Living with war: Poets and the Welsh experience c.600–1300', yn *Kings and Warriors in Early North-West Europe*, ed. Jan Erik Rekdal and Charles Doherty (Dublin, 2016), tt. 24–87 (t. 58): '[w]eapons take on a life of their own' a '[m]an-as-weapon ... continues throughout our period.'

⁵ Mae'n rhannu nodweddion â 'Gorhoffedd' Hywel ab Owain Gwynedd (*Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Garrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994) [=GLIF], cerdd 6), 'Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd' gan Gynddelw Brydydd Mawr (*Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr, I*, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991) [=GCBM, i], cerdd 5) a 'Mawl Gwenllïan ferch Hywel o Wynllŵg' gan Brydydd y Moch (*Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin M. Jones gyda chymorth Nerys Ann Jones (Caerdydd, 1991) [=GLIL], cerdd 14), ond nid oes unrhyw gerdd sy'n hollol debyg iddi. Perthyn cerddi Gwalchmai, Hywel a Chynddelw i'r un cyfnod, yn fras, ac mae'n bosibl fod 'Gorhoffedd' Gwalchmai ychydig yn gynharach na 'Gorhoffedd' Hywel (gw. Rhian M. Andrews, 'Golwg ar yrfa Gwalchmai', *LIC*, 27 (2004), 30–47 (t. 36); Nerys Ann Jones, "'Gorhoffedd Hywel ab Owain"', yn *Hywel ab Owain Gwynedd: Bardd-Dywysog*, gol. *eadem* (Caerdydd, 2009), tt. 111–33 (t. 126)). Gw. ymhellach J. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', *Proceedings of the British Academy*, 35 (1948), 167–97 (tt. 188–91); J. E. Caerwyn Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', *LIC*, 11 (1970), 3–94 (tt. 83–6); *idem*, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i wragedd a merched, a'u cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', *LIC*, 13 (1974–9), 3–112 (tt. 74, 86–102); Ann Parry Owen, 'Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd: Cynddelw Brydydd Mawr a'i cant', *YB*, XIV (1988), 56–86.

Llachar fy nghleddyf, lluch ei annwyd—yng nghad,
Llewychedig aur ar fy ysgwyd.⁶

Adleisir yr un llinellau eto, gyda gwahaniaethau mwy sylweddol, ar ddechrau'r pedwerydd caniad ac yn seithfed linell y pumed caniad:

Gwaedraidd fy nghleddyf a godrudd—yng nghad,
Yng nghyfranc â Lloegr llawr nid ymgudd!

...
Lluch fy nghleddyf, fy ngheiniaw ni llwydd,
Ni lluddiaf i'm llaw lladd nis gwehyr.⁷

Mae cryn amrywiaeth yng nghyd-destun y llinellau uchod ac, i raddau, adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn natur y cyfeiriadau at yr arfau. Dilynir y darlun ysblennydd o gleddyf disglair a tharian euraid y bardd ar ddechrau'r ail ganiad gan linellau sy'n canmol prydferthwch byd natur ac yn myfyrio ar berthynas Gwalchmai â Genilles, y *gaerwys fun* 'merch deg' (ll. 27), ac ar ôl y disgrifiad tebyg o'i arfau ar ddechrau'r trydydd caniad ymffrostia'r bardd am ei enwogrwydd ymhlith *r[h]ianedd Gwent* (ll. 36) cyn brolio am ei frwydrau dros fuddiannau Owain Gwynedd. Felly, dilynir y ddau ddisgrifiad o arfau ysblennydd Gwalchmai gan linellau sy'n ymwneud naill ai â harddwch o fath arall neu ag edmygedd merched ohono.

Ar ddechrau'r caniad nesaf, ni chyfeirir o gwbl at ddisgleirdeb y cleddyf nac at 'aur' y darian. Yn hytrach, mae'r cleddyf yn 'baladr waedlyd' (*gwaedraidd*) sy'n ffyrnig mewn brwydr a chanmolir gwroldeb diysgog *llawr* ('arwr'), sef y bardd ei hun, yn ôl pob tebyg, wrth ymladd â gwŷr Lloegr. Yn ddigon addas, cyfeiriadau pellach at yrfa filwrol y bardd sy'n dilyn, er bod ei sylw yn crwydro eto at ferch (Genilles, mae'n debyg) erbyn diwedd y caniad. Yn yr un modd, llinellau milwrol eu naws a geir cyn ac ar ôl y cyfeiriad at y cleddyf yn y pumed caniad, lle'r ymddengys y

⁶ *GMB*, 9.33–4 ('Llachar yw fy nghleddyf, melltenol ei natur ym mrwydr, / Llathraid yw[r] aur ar fy nharian').

⁷ *Ibid.*, 9.43–4 ('Paladr waedlyd yw fy nghleddyf a ffyrnig mewn brwydr, / Mewn ymladdfa â gwŷr Lloegr nid yw ceimiad yn ymguddio!'), 75–6 ('Melltenol fy nghleddyf, ni thycia fy sarhau, / Ni rwystraf i'm llaw daro [y sawl] na fydd yn ei hosgoi').

defnyddir yr arf i gosbi'r sawl a feiddia sarhau'r bardd. Roedd cleddyf Gwalchmai, felly, yn llachar, yn gyflym fel mell, ac weithiau'n waedlyd, ac fe'i cysylltir nid yn unig â'i anrhydedd personol ac â'i frwydro dros ei dywysog ond hefyd â'i ymddangosiad gwych, ei enwogrwydd a'i ddawn wrth ddenu'r merched.⁸

Hyd yn oed i Walchmai, nid ennill edmygedd gwragedd oedd yr unig reswm dros ymdrafferthu am ei ymddangosiad: noda llawlyfr ar strategaeth filwrol a briodolir i'r Ymheroddr Bysantaidd Maurice (582–602 O.C.), er enghraifft, fod milwr sy'n ymddangos yn hardd yn ei arfau yn ennill mwy o hunanhyder ac yn codi mwy o ofn ar y gelyn.⁹ Dylid nodi, hefyd, ei bod yn debygol fod Gwalchmai yn aelod o osgordd filwrol Owain Gwynedd ac y byddai disgwyl i'r dynion profiadol hyn arwain ac ysbrydoli'r dynion llai profiadol ymhllith y fyddin ehangach a fwstrwyd adeg rhyfel.¹⁰

Mae cyfeiriadau uniongyrchol gan feirdd y cyfnod hwn at harddwch rhyfelwyr yn anghyffredin: fel arfer, roedd yn well ganddynt awgrymu harddwch drwy ganmol arfogaeth wych, fel y gwnaeth Gwalchmai. Ond ambell waith ceir cysylltiad diamwys rhwng arfogaeth a harddwch; er enghraifft, wrth ganmol y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth, dywed cyfoeswr iau i Walchmai, Cynddelw Brydydd Mawr, *Wyt prydfawr i'th arfau*.¹¹ Gall *arfau* gyfeirio yma naill ai at arfau neu arfwisg, neu'r ddau, ac mae hyn yn wir hefyd am

⁸ Cf. y drafodaeth ar agweddau merched at wrhydri a gallu milwrol dynion yn Elisa Moras, 'Gwrywdod, gwroldeb a gwrhydri yn y Canu Cynnar', *Llenyddiaeth Mewn Theori*, 2 (2007), 35–85 (tt. 60–5). Gw. hefyd Haycock, 'Living with war', t. 86, lle tynnir sylw at linellau o 'Afallennau' Myrddin sy'n awgrymu bod y bardd wedi ymladd er mwyn plesio merch: *Kymaethlissvn e in y bon. ir bot y wun. / Am yscud. ar wy isguit. am clet ar wy clun (Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A. O. H. Jarman (Caerdydd, 1982) [=LIDC], 16.28–9).

⁹ *Maurice's Strategikon: Handbook of Byzantine Military Strategy*, trans. George T. Dennis (Philadelphia, 1984), t. 12 (llyfr I, rhan 2): 'the more handsome the soldier is in his armament, the more confidence he gains in himself and the more fear he inspires in the enemy'.

¹⁰ Ar yr osgordd neu'r *teulu*, gw. Sean Davies, *War and Society in Medieval Wales, 633–1283: Welsh Military Institutions* (2nd ed., Cardiff, 2014), pennod 1; Haycock, 'Living with war,' tt. 42–5, 50.

¹¹ *GCBM*, ii, 13.22; *GPC*², d.g. *arf*. Ystyr yr arddodiad *i* yma yw 'yn'; gw. *GPC*, d.g. *i*³.

y gair *hëyrn* a geir yn cyseinio â *hardd* mewn cerddi gan ddau fardd o'r drydedd ganrif ar ddeg, Y Prydydd Bychan a Bleddyn Fardd.¹²

Dechreuodd delweddaueth y cleddyf disglair yn gynnar yn hanes barddoniaeth Gymraeg. Yn 'Y Gododdin' canmolir arwr sy'n brwydro *o nerth e kledyf claer*, ac un arall sy'n cario *glas lavnawr* yn ei law, a cheir disgrifiad cymharol fanwl o offer rhyfelwr ifanc yn yr awdl enwog sy'n dechrau â'r llinell *Gredyf gwr oed gwas*:¹³

ysgwyt ysgauyn lledan
ar bedrein mein vuan.
kledyuawr glas glan
ethy eur aphan.¹⁴

Credir bod yr awdl hon yn ychwanegiad cymharol ddiweddar at 'Y Gododdin', er y gall fod yn farwnad ddilys i'w gwrthrych ifanc, Ywain mab Marro.¹⁵ Yn sicr, mae ei chynnwys tipyn yn wahanol i'r rhan fwyaf o awdlau 'Y Gododdin' gan nad oes ynddi gyfeiriad penodol at yr arwr yn ymladd; yn hytrach, canolbwyntia'r bardd ar ei farwolaeth annhymig, ei ieuencid a'i offer ysblennydd. Mae'r darn a ddyfynnwyd hefyd yn cynnwys cyfeiriad cynnar anghyffredin at gleddyf addurnedig, os 'eurwaith' yw ystyr *eur aphan* a bod *ethy* yn golygu 'stribed addurniadol' neu 'edafedd'.¹⁶ Gall mai addurn ar ffurf gwifrau aur a ddisgrifir, a hynny o bosibl yn debyg i'r patrymau ffiligrî a geid ar garnau rhai cleddyfau Eingl-Sacsonaidd.¹⁷

¹² *Gwaith Bleddyn Fardd a Beirdd Eraill Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996) [=GBF], 3.16 *Tëyrn yn hëyrn yn hardd* ('Marwnad Rhys Gryg'); *ibid.*, 46.9 *Tëyrn yn hëyrn, yn hardd wisgad—balch* ('Mawl Rhys ap Maredudd ap Rhys'); GPC, d.g. *haearn* 2(a) a (b).

¹³ CA, llau. 557, 960, 1.

¹⁴ *Ibid.*, llau. 5–8.

¹⁵ Brendan O Hehir, 'What is the *Gododdin*?', yn *Early Welsh Poetry: Studies in the Book of Aneirin*, ed. Brynley F. Roberts (Aberystwyth, 1988), tt. 57–95 (tt. 73–4); John T. Koch, *The Gododdin of Aneirin: Text and Context from Dark-Age North Britain* (Cardiff, 1997), t. 176.

¹⁶ CA, tt. 64–5; Kenneth Hurlstone Jackson, *The Gododdin: The Oldest Scottish Poem* (Edinburgh, 1969), t. 115 'fringes of worked (?) gold'; Koch, *Gododdin*, t. 53 'painstaking gold wirework'.

¹⁷ Gw. e.e. <<http://www.staffordshirehoard.org.uk/filigree-patterns-in-the-staffordshire-hoard>> (cyrchwyd ar 16 Hydref, 2017).

Yn ogystal â *clær*, defnyddiodd y beirdd nifer o ansoddeiriau eraill i ddisgrifio cleddyfau neu lafnau sgleiniog, gan gynnwys *llachar*, *llathraid* (fel elfen yn *llathreidrudd*), *llewychedig*, *gloyw* a *disglair*.¹⁸ (Diau nad yw'n gyd-ddigwyddiad fod y rhan fwyaf o'r geiriau hyn yn cyseinio â *cledd(yf)* neu *llafn*, naill ai yn eu ffurf gysefin neu, yn achos *gloyw*, yn ei ffurf dreigledig.) Defnyddid yr ansoddair *glas* mewn cyd-destunau tebyg, a'r gair hwn yn gallu cyfeirio nid yn unig at ddisgleirdeb yr arf ond hefyd at ei liw metelaidd, neu ryw liw penodol a gynhyrchid drwy driniaeth arbennig.¹⁹ Ymddengys ym aml mai rôl *glas* yn y farddoniaeth yw canmol ymddangosiad gwych yr arf, a thrwy estyniad, harddwch a milwriaeth y rhyfelwr. Gwelir hyn yn achos *kledyuawr glas* Ywain yn y llinellau o'r 'Gododdin' a ddyfynnwyd uchod, a'r cyfeiriadau at *laslain* gan Gynnddelw a Phrydydd y Moch wrth ganmol Hywel ab Owain Gwynedd a Llywelyn ab Iorwerth,²⁰ a cheir cyfeiriadau tebyg gan feirdd diweddarach.²¹

Mae arwyddocâd gwahanol i'r *llafn glas* yn y farwnad a ganodd Peryf ap Cedifor, brawd maeth Hywel, i'r bardd-dywysog ac i'w frodyr ei hunan ar ôl iddynt gael eu lladd ym mrwydr Pentraeth yn 1170:

Difiau in diau leas
Yn y Penrhyn uch Penrhos,

¹⁸ Am y gair *clær*, gw. *GMB*, 7.121; *GCBM*, i, 16.165; *GCBM*, ii, 1.17; *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntafy Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N. G. Costigan (Bosco) et al. (Caerdydd, 1995) [=GDB], 18.58, ac o ran Beirdd yr Uchelwyr, cf. e.e. *GRhGE*, 4.26; hefyd [c]leddglaer, yn *GGDT*, 6.86; am *llachar*, gw. *GMB*, 9.19, 33 (dyfynnwyd uchod); *GCBM*, i, 16.164 (gyda *llain*); am *llathreidrudd* 'disgleirgoch', gw. *GLILL*, 13.18; am *llewychedig*, gw. *GDB*, 18.11; am *gloyw*, gw. *GCBM*, ii, 5.137; hefyd *gloywddrud* yn *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996) [=GLIBH], 8.29; *gloywddewis* yn *GMBen*, 15.11, a *gloywlas* yn *GRhGE*, 1.51; am *disglair*, gw. *GDC*, 2.47.

¹⁹ *GPC*, d.g. *glas*¹; Dafydd Jenkins, 'Said: gwrm said, gwyn said; yslipanu', *B*, xxxv (1988), 55–61; cf. hefyd *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1977) [=CO], llau. 775–95.

²⁰ *GCBM*, ii, 6.128–9 *Glew oddef gloeslef a glaslain / Ar glun; GLILL*, 21.15 *Aerwalch balch, bolch ei laslain*.

²¹ E.e. *GDBM*, 2.30 *Llafnwyar wanas, glas gledd; ibid.*, 16.4 *Tomas, gleddlas arglwyddlyw* (cf. *GDLI*, 5.16); *GO*, X.51 *Dvr glas arf yw dy wir gledd*.

Ym Môn, i mewn ei hynys,
Ydd ym lleddir â llafn glas.²²

Er ei bod yn bosibl fod Peryf wedi ei anafu gan lafn wrth ymladd yn y frwydr, y tebyg yw mai prif swyddogaeth lenyddol y *llafn glas* yw cynrychioli'r loes a deimlai'r bardd ar ôl marwolaeth ei frodyr a'i frawd maeth.

Mae enghreifftiau eraill o arfau gleision mewn cyd-destunau negyddol. Ceir yr ymadrodd *gloes glas feraw* wrth gyfeirio at waywffyn gelynyon yn y gerdd 'Pa ŵr yw'r Porthor' ac yn un o'r cyfresi englynion yn 'Canu Heledd', a defnyddiodd Einion ap Gwalchmai (mab Gwalchmai ap Meilyr) yr un ymadrodd mewn perthynas ag offer Dioddefaint yr Iesu.²³ At hynny, ym 'Marwnad Gruffudd ab Adda' gan Ddafydd ap Gwilym cyfeirir at ladd y gwrthrych *â glas gledd*, ac mewn cerddi eraill o'i eiddo ceir cyfeiriadau ysgafnach at [*d*]dur *glas glew* sy'n lladd gwair (gan gymharu hyn â ffawd arglwyddi) a *llafn glas* sy'n methu rhwystro'r gwynt.²⁴

Nid yw'r ddwy agwedd hyn ar arf *glas* yn hollol wrthwynebol. Efallai fod *glas* yn awgrymu natur beryglus arf, a'r nodwedd hon yr un mor berthnasol i arf gwrthrych cerdd, sy'n beryglus i'w elynion, ag ydyw i arf sy'n lladd neu'n clwyfo'r gwrthrych. Yn y naill achos neu'r llall, byddai lliw a sglein y llafn yn berthnasol i'w allu i niweidio; hynny yw, byddai'r ffaith fod arf yn *las* yn awgrymu ei fod wedi ei gaboli'n dda, ac felly yn debygol o fod wedi ei hogi ac yn finio iawn.

Dull arall o awgrymu natur niweidiol arfau oedd delweddaeth y cleddyf 'melltenol'. Gall mellten fod yn beryglus yn ogystal â bod yn ddisglair, ac mae'n ddiarhebol o gyflym hefyd, fel y dengys llinellau a briodolir i Ddafydd ap Gwilym, *Cerddais yn gynt, helynt hir, / No mellten ddeunaw milltir*.²⁵ Mae cyflymder yn bwysig yn nelweddaeth y cleddyf am ei fod yn adlewyrchu nid yn

²² *GLIF*, 21.5–8.

²³ *LIDC*, 31.78; *Early Welsh Saga Poetry: A Study and Edition of the Englynion*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990) [=EWSP], t. 443 ('Heledd a'i Brawd Claf'), ll. 101b; *GMB*, 27.37; gwrthgyferbynnir y *glas verew* sy'n perthyn i wrthrych y gerdd yn *EWSP*, t. 441 ('Hedyn'), ll. 89c.

²⁴ *DG.net*, 21.20, 66.23, 47.22.

²⁵ *Ibid.*, 125.1–2.

unig ansawdd yr arf ond hefyd allu milwrol y dyn sy'n ei drin. (Ceir cyfeiriadau mwy uniongyrchol at gyflymder neu sioncrwydd arfau a rhyfelwr, ond nid oes lle i'w trafod yma.²⁶) Yn ogystal â chleddyf melltenol (*lluch*) Gwalchmai a grybwyllwyd uchod, cyfeirir at [g]ledyf *lluch Lleawc* yn y gerdd 'Preiddiau Annwn', a cheir yr ymadrodd *lluchiad gwyarllafn* gan Risierdyn, bardd o ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.²⁷ At hynny, ymddengys fod Dafydd ap Gwilym yn cymharu ei gleddyf ef ag *ufelfellt*, a cheir cymariaethau tebyg mewn cywyddau gofyn a diolch am gyllyll a chleddyfau, fel y trafodir isod.²⁸

Cyfunir delweddaeth disgleirdeb a chyflymder, hefyd, mewn marwnad gan Brydydd y Moch lle cysylltir fflach (*llethrid*) llafnau disglair a gwaedlyd y gwrthrych â chymryd gwystlon: *Gwestlid rhag llethrid llathreidrudd—lafnawr / O loflen mab Gruffudd*.²⁹ A chysylltir sglein llafn â thrais yn fwy uniongyrchol mewn cerdd gan Gynddelw lle defnyddir y ferf *llathru* 'disgleirio' i gyfleu ergyd i dalcen gelyn gan Hywel ab Owain Gwynedd: *Llathrai lafn o'i law ar gyfys, / Llachar glaer yn aer, yn nyrys*.³⁰ Mae amwysedd yma o ran pwy neu beth sy'n *llachar glaer*: ai *llafn* Hywel, neu'r bardd-dywysog ei hun, neu ei weithred, neu gyfuniad o'r tri? Gellid cymharu defnydd adferfol *lluch* yn 'Gorhoffedd' Gwalchmai, *lluchydd ardwyl—glew*, a'r cleddyf yn oddrych y ferf er mai'r bardd-rhyfelwr ei hun a ganmolir mewn gwirionedd.³¹ Ceir cyfeiriadau eraill

²⁶ Nodir enghreifftiau yn Jennifer P. Day, 'Arfau yn yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 2010) [<http://hdl.handle.net/2160/4646>], 294–6 (cf. y gwaywffyn cyflym neu felltenol a drafodir *ibid.*, 244); cf. hefyd, e.e. *ehuta' cledd* Dafydd ap Gwilym, sydd hefyd yn *loywgledd* (*DG.net*, 71.44, 32, a gw. ymhellach isod) a *bywiocledd* Guto'r Glyn, yn *GG.net*, 110.65–6.

²⁷ *GMB*, 9.19, 33, 75 (dyfynnwyd uchod); *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, ed. Marged Haycock (Aberystwyth, 2007), 18.18; *GSRh*, 4.31 (ar y dehongliad, gw. *ibid.*, n. a *GPC*, d.g. *lluchiad²* 'Disgleiriad, fflachiad, mellteniad').

²⁸ *DG.net*, 71.29 (gw. n. 135 isod, am y dehongliad); *GIG*, XI.91–2; *GRhGE*, 5.84; *GTP*, 45.25; *Gwaith y Nant*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2013) [=GyN], 3.99–100.

²⁹ *GLILl*, 13.17–18.

³⁰ *GCBM*, ii, 6.48–9.

³¹ *GMB*, 9.19. Cf. y gymhariaeth yn Ann Parry Owen, 'Gramadeg Gwysanau (Archifdy Sir y Fflint, D/GW 2082)', *LIC*, 33 (2010), 1–31 (t. 17), llau. 34–7 *Ac onys datkenir yn da yspys, tebic yw hynny y rodi kledeu yn llaw dyn a'r parlis*

lle canmolir noddwyr yn fwy uniongyrchol am eu ‘disgleirdeb’ neu eu natur ‘felltennol’. Er enghraifft, defnyddiodd y Prydydd Bychan yr ymadrodd *gloywner esgud* ‘arglwydd disglair rhwydd’ ym marwnad Maredudd ab Owain (m.1265), ac yn ‘Hirlas Owain’ gan Owain Cyfeiliog canmolir aelod o’r osgordd a oedd fel *Lluch i dan ysgwyd ysgawn lydan*.³²

Gwelir yr un cyswllt rhwng trais a disgleirdeb arfau mewn rhyddiaith. Yn y fersiynau Cymraeg o storïau Siarlymaen, ymffrostia Otuel am nifer y gelynion y bydd yn eu lladd â’i *[g]ledyf gloyw*, a datgana Rolant y bydd ei gleddyf ef yn ‘cerdded’ ymhlith ei elynion *megis lluchaden vuan llem*.³³ Noda Regine Reck na cheir y gymhariaeth â mellten yn fersiwn Ffrangeg gwreiddiol stori Rolant, ac yn yr un modd, yn fersiwn gwreiddiol stori Otuel ni chyfeirir at gleddyf gloyw ond, yn hytrach, at gleddyf o ddir (*branc d’acier*).³⁴ Gellid cymharu’r disgrifiadau o frwydrau Bron yr Erw a Mynydd Carn yn y fersiynau Lladin a Chymraeg o fywgraffiad Gruffudd ap Cynan (m.1137). Yn y testun Lladin a ysgrifennwyd yn wreiddiol yn ystod teyrnasiad ei fab Owain Gwynedd, yn ôl pob tebyg, disgrifir y brenin yn ymladd yn y frwydr gyntaf â *gladio mortifero* ‘cleddyf angheuol’ ac, yn yr ail, â *gladio*, yn syml; ond yn y cyfieithiad Cymraeg, y credir iddo gael ei lunio yn y drydedd ganrif ar ddeg, defnyddir yr ansoddeiriau *llathreit* ‘disglair’ a *lluchiadennawl* ‘fflachiog fel mellten’ wrth ddisgrifio’r cleddyf.³⁵ Gall mai dan ddylanwad y farddoniaeth yr ychwanegwyd y

arnaw—y kledeu yn da ac yn llym, yntev heb allel d[im] ac efo am na ellir dyall peth a dywetto. Hynny yw, ni all cleddyf wneud dim ar ei ben ei hun.

³² *GBF*, 13.23; *GLIF*, 14.42.

³³ *Ystoria de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968) [=YCM²], 64.25; *Cân Rolant: The Medieval Welsh Version of the Song of Roland*, ed. Annalee C. Rejhon (Berkeley, 1984) [=CR], LXVI.9.

³⁴ Regine Reck, *The Aesthetics of Combat* (Wiesbaden, 2008), t. 170; *Otinell: Chanson de Geste*, ed. François Guessard a Henri Victor Michelant (Paris, 1859), t. 23 (ll. 654).

³⁵ *Vita Griffini Filii Conani: The Medieval Latin Life of Gruffudd ap Cynan*, ed./trans. Paul Russell (Cardiff, 2005) [=VGC], §14/10 *gladio mortifero* ‘death-dealing sword’, §18/8 *cuncto gladio* ‘with every blow of his sword’; *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977) [=HGK], 11.5, 15.15.

manylion disgrifiadol hyn.³⁶ (Rhaid nodi, fodd bynnag, nad oedd y math hwn o ddelweddaeth yn gyfyngedig i lenyddiaeth Cymru.³⁷)

Math arall o ddelweddaeth sy'n cyfuno disgleirdeb, symudiad cyflym a pherygl yw cymharu arf â than neu fflamau. Defnyddiodd Prydydd y Moch y gair cyfansawdd *fflamddur* i ddisgrifio cleddyf Gruffudd ap Cynan arall (gorwyr yr un a grybwyllwyd uchod), ac mae'n bosibl fod cleddyf yn ddealliedig mewn llinell o'r 'Gododdin' lle ceir yr un gair yn disgrifio neu'n cynrychioli rhyfelwr (*gwr frwythlawn flamdur rac esgar*), a hefyd yn achos yr ymadrodd *llew fflamddur* mewn englyn marwnad a briodolir i Ruffudd ab yr Ynad Coch.³⁸ At hynny, ceir *fflamgledd* yn enw ac yn ansoddair mewn cerddi diweddarach gan Ruffudd ap Maredudd a Rhys Goch Eryri.³⁹

Honna Gwilym Ddu o Arfon fod *llafn fflamddwyn fal brwyn* gan Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd, a'r arf yn cael ei gymharu â'r canhwyllau brwyn a ddefnyddid yn oleuadau, a defnyddiodd ddelwedd debyg, *gloyw babir gledd*, mewn cerdd arall i'r un noddwr.⁴⁰ Yn yr un modd, mewn cerdd ofyn gan Lawdden cymherir

³⁶ Cf. awgrym Paul Russell, *VGC*, §33/5n, y gall mai llinell gan Lywelyn Fardd yn 'Canu Cadfan' a ysbrydolodd y ganmoliaeth i *eglwysseu kalcheit* Gwynedd yn *HGK*, 30.17–18.

³⁷ Cf. e.e. y llinellau hyn o'r testun Eingl-Normaneg *Boeve de Haumtone* (*Der Anglo-Normannische Boeve de Haumtone. Bibliotheca Normannica VII*, ed. A. Stimming (Halle, 1899)), llau. 599–602 *les chevalers Bradmund tuz sunt si enbais, / que, quant il veient Boefs o le blanc forbis, / ensemment li fuount com fet li mauviz, / kaunt ele veit le faucoun en son voliz*; cyfieithiad Reck, *Aesthetics*, t. 152, 'Bradmund's knights were so aghast, upon seeing Boeve with his shining blade, they flee from him like the thrush when she sees the falcon in flight.' Noda Regine Reck, *ibid.*, nad oes dim sy'n cyfateb yn y fersiwn Cymraeg; yn hytrach, delwedd y cleddyfwr yn 'fedelwr' a geir yno, a honno dan ddylanwad y farddoniaeth yn ôl pob tebyg. (Ar ddelwedd y 'medelwr', gw. *ibid.*, tt. 171–2; *CA*, tt. 121, 155; Day, 'Arfau', 313–16; Day, 'Weapons', 139).

³⁸ *GLILL*, 9.6 *À i gleddyf fflamddur a i glod dyre*; *CA*, ll. 934; *GBF*, 37.1.

³⁹ *Gwaith Gruffudd ap Maredudd*, i, *Canu i Deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003) [=GGMD, i], 3.198 *Gwenwyn Deifr ei fflamgledd*; *GRhGE*, 12.4 *Yn gorwedd, llew fflamgledd llwyd*. Cf. *fflamlafn* yn *GG.net*, 120.27 (gan 'Guto Powys') a *GRhGE*, 3.100; a *glewdan gledd* yn *GGMD*, i, 3.19.

⁴⁰ *GGDT*, 6.26, 7.29. Efallai fod y ddelwedd hon yn gysylltiedig â'r ffaith fod y noddwr mewn carchar (tywyll?) pan ganwyd y ddwy gerdd (gw. *ibid.*, tt. 67–8). Ar y gair *pabir* 'canhwyllau brwyn', gw. *CA*, t. 113 a cf. *ibid.*, ll. 138 *ket yvem ved gloyw wrth leu babir*.

cleddyf â chwyr sy'n llosgi: *Gwelir, fal fflamgwyr golau, / Goleuni fydd i'r glun fau.*⁴¹ Disgleirdeb sydd amlycaf yn y cymariaethau hyn, ond mewn cerddi gan Ddafydd y Coed a Gruffudd (?Llwyd ap Llywelyn Gaplan) cysylltir delwedd y fflam â llymder yr arf wrth gyfeirio at *aerfin fflamddurgledd* a [ch]ledd o fflamawchddur glân, a'r ddau ymadrodd hyn yn awgrymu arf peryglus a niweidiol.⁴² Gellid cymharu llinell Lewys Glyn Cothi, *llew â'i awchus gledd yn dân llachar*, lle mae *awchus* yn dwyn ystyr ddwbl, o bosibl, sef 'ffyrnig' yn ogystal â 'miniog'.⁴³

Efallai y byddai ymwybyddiaeth y beirdd a'u cynulleidfaoedd fod tân yn gallu bod yn arf rhyfel wedi ychwanegu at rym cyfeiriadau o'r fath. Mae creu difrod â *thân a haearn* (a'r gair olaf yn dynodi arfau) yn *dopos* cyffredin mewn croniclau,⁴⁴ ac yn yr un modd, mae Dafydd Benfras yn disgrifio Gruffudd, mab Llywelyn ab Iorwerth, yn *cymryd arfau / Yn Lloegr, yn llosgi ei thyrau.*⁴⁵ Awgrymir yr un math o weithgaredd mewn llinellau gan Einion ap Madog ap Rhahawd, wrth iddo gymharu'r un Gruffudd â *thân* o ran ei ymosodiad mewn brwydr: *Gnawd yd gyrch cynnygn o'i gynnif bwng / Mal pan gyrch fflamdan fflamdo ysbwng.*⁴⁶

Mae'n bosibl, hefyd, fod rhai o'r cleddyfau 'fflamllyd' a grybwyllwyd uchod yn ymwneud â math arall o dân, sef gwreichion yn neidio pan drawai'r arf yn erbyn arfau eraill neu arfwisg. Awgrymir hyn, efallai, gan y cysylltiad rhwng tân a min neu lymder cleddyf a nodwyd yn barod, ac yn wir cysylltir awch cleddyf â gwreichion yn uniongyrchol mewn cywydd gofyn gan Gutun

⁴¹ *GLI*, 14.37–8.

⁴² *GDC*, 1.41; *GMBen*, 17.10.

⁴³ *GLGC*, 158.19; *GPC*², d.g. *awchus*.

⁴⁴ Gw. e.e. *Brut y Tywysogion: Red Book of Hergest Version*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955), t. 202 *Ac yntev a gauas y castell y treis gann ellwg y castell a'r castellwyr trwy dan a hayarn*. Cf. yr ymadrodd Lladin *ferro et igne*; gw. *Dictionary of Medieval Latin from British Sources*, vol. i, ed. R. E. Latham and D. R. Howlett (Oxford, 1975–97), s.v. *ferrum* (5b).

⁴⁵ *GDB*, 29.4–5.

⁴⁶ *Ibid.*, 23.17–18 ('Mynych yr ymesyd ar elynion drwy ei weithred [mewn] brwydr / Fel pan ymesyd tân gwenfflam ar do o goed crin sydd ynghynn'); cf. e.e. *GCBM*, ii, 6.154 *Hwyl taerdan trywan trwy wial*, a'r elfen *fflam* mewn enwau personol megis *Fleudur Flam*, *Fflam m. Nwyfre a Flamdwyn* (Rachel Bromwich gol., *Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain* (4th ed., Cardiff, 2014), t. 353).

Owain: *Ni chair yn grair yn y gryd / Awch vlllafn mor wreichionllyd.*⁴⁷ At hynny, gall fod arwyddocâd dwbl i'r gair *callestr* a ddefnyddiwyd gan Ddafydd ap Gwilym yn drosiad am ei gleddyf, a'i fod nid yn unig yn canmol gwydnwch yr arf ond hefyd yn awgrymu ei allu i greu gwreichion.⁴⁸ Cyfeirir at arfau'n cynnau tân yn y rhyddiaith hefyd, fel yn achos darn o 'Rhamant Otuel' lle disgrifir Rolant yn taro helm Otuel â'i gleddyf *yny neitywys y tan o'r cledyf ac o'r helym.*⁴⁹ Wrth drafod cyfeiriad tebyg yn chwedl 'Owain' neu 'Iarlles y Ffynnon', *A phei tywyll y nos hi a vydei oleu gan y tan o'e harueu*, noda Regine Reck fod y motiff hwn yn gyffredin mewn llenyddiaeth ganoloesol, gan dynnu sylw at enghreifftiau Cymraeg eraill yn chwedl 'Lludd a Llefelys' ac yn 'Y Seint Greal'.⁵⁰

Posibilrwydd arall eto, yn achos yr holl gleddyfau 'fflamlyd', yw eu bod yn adlewyrchu, i ryw raddau, ymwybyddiaeth fod tân yn rhan bwysig o wneuthuriad yr arf. Diau fod gwaith y gof yn ddigon cyfarwydd i'r beirdd; yn wir, cyfeirir at y grefft hon sawl gwaith yn y canu gofyn a diolch, fel yn achos llinellau gan Ieuan ap Tudur Penllyn, *Dyro dy gleddau, Ieuan, / Dur tawch rhwng y dŵr a'r tân*, ac Owain ap Llywelyn ab y Moel, *ni roes Duw wrth yr ias-dân / mil o ofaint mal Ifan.*⁵¹ Gellid cymharu, hefyd, linellau Rhys Goch Eryri yn ei gywydd i ofyn am gyllell, a'r gerdd hon wedi ei chyflwyno i'r gof ei hun: *Tanllif gallestr gur, dur dôn, / Ufel wrych efail wreichion.*⁵²

⁴⁷ *GO*, XVII.31–2.

⁴⁸ *DG.net*, 71.26; *GPC*, d.g. *callestr*. Ymddengys mai gan Ddafydd ap Gwilym y ceir yr enghraifft gynharaf o'r gair, ond cymharer *ibid.*, d.g. *callestrig*, lle nodir enghreifftiau o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen ar gyfer yr ystyr 'tanllyd, tanbaid, disglair', a'r dystiolaeth gynharaf o'r ystyr 'tebyg i gallestr; caled' yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg.

⁴⁹ *YCM*², 60.14–15.

⁵⁰ *Aesthetics*, tt. 76–7, a gw. *Owein, or Chwedyl Iarlles y Ffynnawn*, ed. R. L. Thomson (Dublin, 1986), llau. 530–1. Cf. hefyd, e.e. Henry, *Archdeacon of Huntingdon: Historia Anglorum / The History of the English People 1000–1154*, ed./trans. Diana Greenway (Oxford, 1996), vi.30 *Insilit ignita collisio galearum et ensium* 'The clash of helmets and swords produced dancing sparks' (am frwydr Hastings).

⁵¹ *GTP*, 45.23–4; *GOLIM*, 20.7–8. Gw. ymhellach Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch* (Caerdydd, 1998), tt. 75–6.

⁵² *GRhGE*, 5.59–60, a gw. *ibid.*, t. 185.

Fel y nodwyd uchod wrth drafod y gair *glas*, roedd miniogrwydd a disgleirdeb fel ei gilydd yn nodweddion ar lafn o ansawdd da a oedd wedi ei gaboli'n dda. Nid oes syndod, felly, fod y beirdd yn crybwyll miniogrwydd ar y cyd â disgleirdeb weithiau; er enghraifft, mewn cerdd gan Ddafydd y Coed priodolir *grym llym llafn disglair* i noddwr, a chyfeiria Rhys Goch Eryri at [g]ledd *awchrudd clauer*.⁵³ Ond, wrth gwrs, ceir digonedd o gyfeiriadau at finigrwydd fel nodwedd unigol hefyd. Yn 'Y Gododdin' canmolir arwyr a laddai â *llavyn lliveit* neu'r *llavyn llymaf*, yn ogystal â chrybwyll ymosodiad â *chledyvawr lliveit*; a cheir *llym* a *llifaid* gyda'i gilydd yn 'Armes Prydain': *llym llifeit llafnawr llwyr y lladant*.⁵⁴ Yn 'Hirlas Owain' gwrthygyferbynnir llyfnder lled llafn â miniogrwydd ei fin, *Llyfn ei deutu*, *llym ei hamgant*, a defnyddir y cyfansoddeiriau *llymlafn*, *llymgledd* a *cleddlym* gan Ruffudd ap Maredudd, Rhisiertyn, Meurig ab Iorwerth a Madog Dwygraig.⁵⁵

Mae'n werth crybwyll, hefyd, y cyfeiriadau at lafnau *deufin*, *dwyawch* a *dauafwch* mewn cerddi gan Hywel ab Owain Gwynedd, Llywelyn Fardd I a Phrydydd y Moch, ac at lafn, *llain* a *chleddyf daufiniog* gan Ruffudd ap Maredudd, Gruffudd Llwyd a Madog Benfras.⁵⁶ Gallai'r cyfeiriadau hyn adlewyrchu teimlad fod cleddyfau deufiniog yn uwch eu statws na chleddyfau (neu gyllyll) unfiniog, ond nid dyma eu hunig arwyddocâd.⁵⁷ Arfau trosiadol yw'r *llafnau deufin* sy'n 'lladd' Hywel ab Owain, yn ôl llinell o'i 'Gorhoffedd': *Er fy lladd-i â llafnau deufin, / Rhy-m-gwalaeth-i*

⁵³ *GDC*, 2.47; *GRhGE*, 4.26; cf. *cuall a llem* (am gyllell) yn *GIG*, XI.7.

⁵⁴ *CA*, llau. 215, 414, 1012; *Armes Prydein*, ed. Ifor Williams, English version by Rachel Bromwich (Dublin, 1972), ll. 79.

⁵⁵ *GLIF*, 14.102 (cf. *GLILI*, 6.45 *Yn fwyaf, balchaf bwlch lifaid—lafnawr*; *GGMD*, i, 8.7 ([*llymlafn*]); *GSRh*, 4.99 ([*llymgledd*]); *GDC*, 13.65 (*cleddlym*); *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006), 4.31 (*cleddlym*).

⁵⁶ *GLIF*, 6.57, 3.63; *GLILI*, 1.78; *GGMD*, i, 7.65 (*aerllafn daufiniog*); *GGLI*, 11.73 (*daufiniog lain*); *GMBen*, 4.56 (*daufiniog gledd*, yn cyfeirio'n ffigurol at Ddafydd ap Gwilym). Cf. *DG.net*, 71.28 *Cilied Deifr, caled deufin*.

⁵⁷ Ar statws cleddyfau unfiniog a chyllyll (unfiniog a daufiniog), gw. Day, 'Arfau', 132–8, 335–6; Davies, *War and Society*, tt. 155–6. Roedd gan ddau fin cleddyf arwyddocâd pellach ym marddoniaeth y bymthegfed ganrif, fel y trafodir isod.

*gwraig brawdfaeth brenin.*⁵⁸ Ymddengys fod yr ymadrodd *llafnau deufin* yn cynrychioli agwedd, gweithred neu eiriau ar ran y ferch sy'n peri loes emosiynol i'r bardd; yn wir, awgryma Huw Meirion Edwards y gallai fod yn ddisgrifiad amwys o'i gwefusau.⁵⁹ Mae'n ddiddorol cymharu Diarhebion 5.3–4: *Y mae gwefusau'r wraig estron yn diferu mêl, / a'i geiriau yn llyfnach nag olew, / ond yn y diwedd y mae'n chwerwach na wermod, / yn llymach na chleddyf daufiniog.*⁶⁰

Yr argraff a geir, fodd bynnag, yw bod y ffaith fod gan yr arf ddau fin yn hytrach nag un yn ychwanegu at ei effeithlonrwydd wrth beri niwed; yn yr un modd, pan gwyna Dafydd ap Gwilym am *seithochr wayw* yn ei gywydd 'Gwayw Serch', mae grym yr ansoddair *seithochr* yn ymwneud yn bennaf â dwyster y boen y mae'r arf trosiadol hwn yn ei hachosi.⁶¹ Defnyddir *daufiniog* i oleddfur' gair *pla*, hyd yn oed, mewn llinell o gerdd grefyddol gan Iolo Goch (*Llidiog blin daufiniog bla*), a'r tebyg yw mai 'cas iawn' yw ei ystyr yma.⁶²

Yn yr un modd ag yr oedd disgleirdeb cleddyf yn adlewyrchu ymddangosiad gwych y rhyfelwr, a chyflymder melltenol symudiad y cleddyf yn adlewyrchu ei allu milwrol, gellid trosglwyddo delweddaeth miniogrwydd i berchennog yr arf. Mae enghraifft drawiadol yn un o awdlau 'Y Gododdin' (a gofnodwyd mewn dau fersiwn), lle honnir nad oes neb yn *llymach* nag arwr o'r enw *llif* neu *llivyeu*.⁶³ Mae'r enw personol ei hun yn awgrymu miniogrwydd am fod yr enw cyffredin *llif* yn dynodi naill ai llafn miniog a danheddog ('saw' yn Saesneg) neu rathell neu ffeil, ac o'r enw hwn y tardda'r ferf *llif(i)o* ('torri â llif, ffeilio' neu 'hogi') a'r ansoddair *llifaid* 'wedi ei hogi, miniog'.⁶⁴

⁵⁸ *GLIF*, 6.57–8 ('Er fy nharo i â llafnau daufiniog, / Gwraig brawd maeth brenin sydd wedi fy nhristáu').

⁵⁹ 'Canu serch Hywel ab Owain Gwynedd', yn *Hywel ab Owain Gwynedd*, tt. 88–110 (t. 91); tynnir sylw, *ibid.*, at *GLIF*, 6.53–4 *pell fy min / I wrthi*, lle cyfeiria *min* at wefus(au)'r bardd (gw. *GPC*, d.g. *min*).

⁶⁰ *Y Beibl Cymraeg Newydd* (Swindon, 1988).

⁶¹ *DG.net*, 127.11, a gw. nodyn Sara Elin Roberts ar y llinell.

⁶² *GIG*, XXVII.81; a gw. *ibid.*, t. 387.

⁶³ *CA*, llau. 256–7, 248–9.

⁶⁴ *GPC*, d.g. *llif*¹, *llifaf*¹, *llifaid*. Adlewyrchir rôl llif wrth hogi arf yn *GGGr*, 4.32 *Fardd penceirddradd, lifnadd lafn* (am Ddafydd ap Gwilym).

Mae'n ddiddorol cymharu'r cyfeiriad at arwr *llym* sy'n cael ei 'hogi' fel pe bai'n arf yn 'Maen', un o'r cyfresi englynion yn 'Canu Llywarch Hen':

Vyn dewis y *gynran* ae gaen arnaw.
yn llym megys draen.
nyt ouer gnif ym hogi[f] maen.⁶⁵

Yma hefyd ceir chwarae ar enw'r arwr, am fod *maen* yn golygu 'carreg' yn ogystal ag 'arglwydd' neu 'gŵr grymus', a defnyddid meini ar gyfer hogi, wrth gwrs.⁶⁶ Byddai 'hogi maen' yn dasg ofer, ac efallai'n ddjarhebol o ofer; ac eto, mae'r rhyfelwr ifanc hwn yn barod iawn i gael ei baratoi am frwydr.⁶⁷ Gwelir cymhariaeth debyg yn gweithio'n groes, fel petai, mewn cywydd brud gan Ddafydd Gorlech lle cyfeirir at 'bylu' gelyn llym: *Iarll mud-falch, er llymed fai, / Help Wiliam Hoel a'i pylai*.⁶⁸ Mae'r beirdd hyn, wrth gwrs, yn chwarae ar ystyron eang *llym*, a'r gair yn medru cyfleu amrywiol nodweddion dynol megis craffter, dicter a ffyrnigrwydd yn ogystal â chael ei ddefnyddio'n adferfol i gyfleu dwyster neu gyflymder ymladd.⁶⁹ Nid oes syndod, felly, fod y beirdd yn defnyddio'r gair *llym* wrth gyfeirio at noddwyr a'u gweithredoedd.⁷⁰

Gellid cymharu hefyd linell o 'Gorhoffedd' Gwalchmai: *Genilles a'm llif, cyd am lladdwy—ar air*.⁷¹ Os y ferf *llifo* 'hogi' sydd yma, efallai fod geiriau Genilles yn ysbarduno'r bardd i frwydro'n ddewr, neu i ganu'n well, neu efallai mai'r awgrym yw eu bod yn

⁶⁵ *EWSP*, tt. 410–11 (llau. 6a–c). Ar y darlenniadau *gynran* a *hogi[f]*, gw. Ifor Williams, *Canu Llywarch Hen* (ail arg., Caerdydd, 1953) [=CLIH], tt. 149–50; *EWSP*, t. 531.

⁶⁶ Gw. *GPC*, d.g. *maen*¹ ... *maen llifo* 'grindstone'; *CA*, t. 131. Am yr ystyr 'lord, man of power', gw. Timothy Lewis, *A Glossary of Medieval Welsh Law* (Manchester, 1913), tt. 211–12 (diolchaf i Morfydd E. Owen am y cyfeiriad hwn).

⁶⁷ *CLIH*, t. 150: 'Nid hogi carreg yr oedd yr hen ŵr, ond hogi ei fab, Maen, i'r frwydr'.

⁶⁸ *GdGor*, 1.73–4.

⁶⁹ *GPC*, d.g. *llym*; Elena Parina, 'The polysemy of *llym* in Middle Welsh', *Zeitschrift für Celtische Philologie*, 63 (2016), 129–61.

⁷⁰ Gw. *ibid.*, tt. 149–51.

⁷¹ *GMB*, 9.29.

cyffroi ei gariad neu ei chwant tuag ati.⁷² Gall fod hyn yn agwedd arall ar symboliaeth y cleddyf yn y gerdd hon; hynny yw, bod y bardd yn cael ei ddelweddu'n gleddyf, yn ogystal â bod y ddau'n rhannu nodweddion a'r cleddyf yn cael ei bersonoli (sef, wrth gyfeirio ato'n 'amddiffyn' y bardd, *lluch ydd ardwy—glew* (ll. 19)).

Yn ogystal â disgleirdeb neu fflach cleddyf, nodwedd arall a all adlewyrchu ymddangosiad ysblennydd rhyfelwyr oedd addurn euraid. (Dyma agwedd arall a welir yn 'Gorhoffedd' Gwalchmai, er bod ei aur ef ar ei darian yn hytrach na'i gleddyf.) Cyfeiriwyd yn barod at yr addurn aur ar gleddyfau'r arwr ifanc Ywain mab Marro yn awdl gyntaf 'Y Gododdin', ac mae achosion niferus eraill o *aur* neu *eur-* wedi eu cyfod neu eu cyfuno â geiriau am arfau a rhyfelwyr. Gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng yr ystyrion 'aur', 'euraid' a 'gwyth, ysblennydd', a hyd yn oed os oedd gan y beirdd addurn aur mewn golwg, gall cyfeiriadau o'r fath fod yn ystrydebol, wrth i'r bardd ganmol statws uchel a chyfoeth dyn yn ogystal â'i ymddangosiad.⁷³ Fodd bynnag, nid afresymol yw tybio bod y beirdd a'u cynulleidfaoedd wedi gweld cleddyfau cain. Mae nifer o gleddyfau canoloesol ac arnynt addurn o aur neu arian wedi goroesi mewn cyflwr da hyd heddiw, a gwyddom fod yr Eingl-Sacsoniaid yn defnyddio aur i addurno cleddyfau weithiau, fel y dengys darganfyddiadau o Sutton Hoo a chelc Swydd Stafford.⁷⁴ Gellid crybwyll, hefyd, yr addurn arian a *niello* ar ddarn croes efydd, rhan o gleddyf Llychlynnaidd, a ddarganfuwyd oddi ar arfordir Sir Benfro ac sy'n dyddio, o bosibl, o chwarter cyntaf y ddeuddegfed ganrif.⁷⁵

⁷² Posibilrwydd arall fyddai deall *llif* yn ffurf ar *llifo* 'rhedeg fel dŵr' a'r *muner* ('cyfoeth' neu 'ffafir') a grybwyllir ar ddechrau'r llinell nesaf yn wrthrych iddi. Am y gwahanol ddeongliadau, gw. y nodiadau ar lau. 29 a 30 yn *GMB*, t. 213, a'r aralleiriad, t. 207.

⁷³ Yn yr un modd, gallai *eurwaith*, sy'n goleddfu *bylchlafn* mewn cerdd gan Lygad Gŵr, olygu naill ai 'gwyth ei wneuthuriad' neu 'addurnedig ag aur' (*GBF*, 24.114; *GPC*, d.g. *eurwaith*).

⁷⁴ Ewart Oakeshott, *Records of the Medieval Sword* (Woodbridge, 1991); H. R. Ellis Davidson, *The Sword in Anglo-Saxon England* (Oxford, 1962), tt. 64–71; Richard Underwood, *Anglo-Saxon Weapons and Warfare* (Stroud, 1999), t. 58 a phlatiau 5–10; <www.staffordshirehoard.org.uk>.

⁷⁵ Mark Redknapp, *Y Llychlynwyr yng Nghymru: Ymchwil Archeolegol* (Caerdydd, 2000), t. 55.

At hynny, darganfuwyd ar faes brwydr Bosworth ran o ddarn croes aloi copr, wedi ei oreuro, a fu'n rhan o gleddyf statws-uchel.⁷⁶

Mae cyfeiriad at lafn *eurddwrn* ym marwnad Cynddelw i ddau uchelwr o Bowys, Rhirid Flaidd a'i frawd Arthen, yn awgrymu carn wedi ei addurno ag aur: *Eurddwrn oedd ei lafn yn ei loflen, / Eurgledd cymynedd, cymynai ben.*⁷⁷ A gellid cymharu cyfeiriadau yn y chwedlau rhyddiaith. Mae Culhwch yn gwisgo *cledyf eurddwrn ar y glun* wrth gychwyn am lys Arthur, a chrybwyllir arfau tebyg yn stori 'Geraint fab Erbin' ac yn 'Breuddwyd Rhonabwy'.⁷⁸ At hynny, yn 'Rhamant Otuel' ymddengys fod y math o fetel ar y carn, boed yn arian, aur neu *eur coeth*, yn adlewyrchu statws y perchennog.⁷⁹

Mwy arwyddocaol o lawer, mewn perthynas ag arfau'r beirdd a'r noddwyr Cymreig, yw'r cyfeiriadau yn y Cyfreithiau at werth cleddyfau addurnedig. Yn ôl Dull Cyfnerth, *Cledyf auo eur neu aryant ar y dwrn pedeir ar hugeint atal.*⁸⁰ Hynny yw, un pris a osodir ar gyfer cleddyf sy'n addurnedig ag aur neu arian fel ei gilydd. Gwahanol yw'r darn cyfatebol yn y fersiwn Latin A, *Pretium gladii . . . De auro vel argento, si super capulum fuerit, sit damtung*, ac yn Null Blegywryd, *Cledyf a uo eur neu aryant ar y aual, gwerth damdwg a uyd arnaw.*⁸¹ Ystyr *damdwng* yma yw 'prisiad ar lw',⁸² ac yn sicr, ymddengys hyn yn llawer mwy ymarferol na'r gwerth gosodedig yn Null Cyfnerth am fod gwerth cleddyfau'n amrywio'n fawr gan ddibynnu ar ansawdd y llafn yn ogystal â natur a safon unrhyw addurn. Ym muchedd Ladin Cadog cyfeirir at gleddyf gwerth cymaint â deg buwch a thrigain, a gwerth buwch ar ei

⁷⁶ Glenn Foard and Anne Curry, *Bosworth 1485: A Battlefield Rediscovered* (Oxford, 2013), t. 125.

⁷⁷ *GCBM*, i, 24.99–100.

⁷⁸ *CO*, ll. 67; *Ystoria Gereint uab Erbin*, gol. Robert L. Thomson (Dublin, 1997), llau. 30, 93; *Breudwyt Ronabwy allan o'r Llyfr Coch o Hergest*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948), 4.6, 12.9, 15.19, 17.31.

⁷⁹ Gw. e.e. *YCM*², 60.12–13, 47.1, 108.10, yn disgrifio cleddyfau Rolant (*a'e dwrn yn eur coeth*), Otuel (*a'e dwrn yn eureit*) a marchog a achubir gan Otuel (*a'e dwrn yn aryant*).

⁸⁰ *Welsh Medieval Law*, ed. A. W. Wade-Evans (Oxford, 1909), t. 105.

⁸¹ *The Latin Texts of the Welsh Laws*, ed. Hywel David Emanuel (Cardiff, 1967), t. 74; *Llyfr Blegywryd*, gol. S. J. Williams a J. Enoch Powell (Caerdydd, 1942), t. 98.

⁸² Lewis, *Glossary*, t. 110; *GPC*, d.g. *damdwng*.

hanterth yn drigain ceiniog yn ôl y Cyfreithiau.⁸³ Gellid cymharu hefyd ewyllys Eingl-Sacsonaidd o tua 958 O.C. sy'n crybwyll cleddyf gwerth 120 mancws o aur, sef, cyfwerth â thua 120 ych.⁸⁴

Parhâi beirdd yr Oesoedd Canol diweddar i gysylltu noddwyr â chleddyfau euraid. Er enghraifft, mewn cywydd a briodolir i Iolo Goch disgrifir Owain Glyndŵr yn *eurgledd pobl* ac yn *aur gledd*.⁸⁵ Mae'n debygol, fodd bynnag, fod cyfran sylweddol o'r achosion o'r cyfansoddair *eurgledd*, yn arbennig,⁸⁶ yn fformiwlâig a heb ryw lawer o arwyddocâd o ran addurn arfau. Yn wir, cyfeiria *eurgledd* at Dduw mewn cerddi gan Ddafydd y Coed a Iorwerth ab y Cyriog.⁸⁷ Yn yr un modd, gallai *ariant*, yn yr ymadrodd *gloyw ariant gledd* ym 'Moliant Syr Rhys ap Gruffudd' gan Einion Offeiriad, fod wedi ei fwriadu i ganmol lliw disglair y llafn yn hytrach na chyfeirio at fath penodol o addurn.⁸⁸ Awgrymir carn addurnedig yn gryf, fodd bynnag, gan gyfeiriad Gruffudd ap Maredudd at *eurgrib lymlafn* sy'n perthyn i noddwr (anhysbys) neu'n ei gynrychioli'n ffigurol.⁸⁹

Yn y cerddi gofyn a diolch y ceir y dystiolaeth fanylaf am ffurf, gwneuthuriad ac addurn cleddyfau. Awdl o waith Cynddelw

⁸³ *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A. W. Wade-Evans (Cardiff, 1944), tt. 130–3; *The Law of Hywel Dda*, ed./trans. Dafydd Jenkins (Llandysul, 1986), t. 175.

⁸⁴ Davidson, *Sword*, t. 118.

⁸⁵ Gruffydd Aled Williams, 'Adolygu'r canon: Cywydd arall gan Iolo Goch i Owain Glyndŵr', *LIC*, 23 (2000), 39–73 (tt. 63–4), llau. 9, 21.

⁸⁶ Defnyddid *eurgledd* yn aml gan y beirdd wrth foli noddwyr. Nodir tair enghraifft ar ddeg yng ngwaith Beirdd y Tywysogion yn Day, 'Arfau', 526, ac mae o leiaf ddeuddeg ym marddoniaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg, e.e. *GGDT*, Atodiad I, ll. 3; *GGMD*, i, 4.10; *GIG*, VII.24. Ymddengys fod y gair wedi colli bri rywfaint ymhlith beirdd y bymthegfed ganrif, ond gw. e.e. *GOLIM*, 12.3; *GG.net*, 78.40.

⁸⁷ *GDC*, 5.68; *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog ac Eraill*, gol. Rhiannon Ifans et al. (Aberystwyth, 1997) [=GGrG], 3.39; gw. hefyd *GPC*, d.g. *eurgledd* (b).

⁸⁸ *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997) [=GEO], 1.32.

⁸⁹ *GGMD*, i, 8.7. Yn y llsg. ceir *eurgryt* yn lle *eurgrib*, ond mae angen diwygio er mwyn y gynghanedd (*ibid.*, t. 163). Cf. *ibid.*, 7.65 *Aerllafn daufiniog eurllythyr*, a'r gair olaf yn cyfeirio o bosibl at addurnwaith euraid, at lythrennau wedi eu hysgythru ar bwml neu ddarn croes euraid, neu at lythrennau aur wedi eu mewnosod yn y llafn (gw. *GPC*, d.g. *eurllythyr*; Oakeshott, *Records*, tt. 47, 84, 86); fodd bynnag, gall mai ystyr ffigurol ('gwyth' neu 'hardd') sydd yma (*GGMD*, i, t. 159).

yw'r enghraifft gynharaf sydd wedi goroesi, ac er na chrybwyllir addurn aur neu arian, canmolir *cloynnau hygar* yr arf, sef, dwy fraich estynedig y darn croes, yn ôl pob tebyg.⁹⁰ Ceir disgrifiadau manylach o gleddyfau yng nghywyddau gofyn a diolch y bymthegfed ganrif, er bod iaith ffigurol techneg 'dyfalu' a ddatblygwyd erbyn y cyfnod hwn yn gallu bod yn heriol i'r sawl sy'n ceisio dehongli'r cerddi hynny.⁹¹ Fodd bynnag, mewn cywydd a ganodd Owain ap Llywelyn ab y Moel i ofyn cleddyf a bwled ar ran noddwr ceir cyfeiriad digon eglur at waith y gof yn euro'r arf: *Ei waith – nid oedd amheuthun – / euro fy nghledd ar fy nghlun*, a chrybwyllir yr aur eto yn nes ymlaen yn y gerdd: *Mae ar gleddau mab Ieuan / dalm o aur a diliau mân*.⁹² (Nid yw'n amhosibl, er hynny, mai rhyw fetel melyn rhatach megis latwn neu efydd a ddisgrifir, a'r bardd wedi 'chwyddo' gwerth y cleddyf er mwyn priodoli haelioni eithafol i'r rhoddwr.)

Ceir cywyddau i ofyn cleddyf gan feirdd eraill megis Llawdden, Lewys Glyn Cothi, Gutun Owain, Ieuan ap Tudur Penllyn ac 'Y Nant'.⁹³ Fel yr awgryma Bleddyn Huws, ymddengys fod 'traddodiad cyffredin o ddisgrifio arf tebyg i gyllell neu gleddyf' wedi datblygu; tynnodd sylw, er enghraifft, at y cyfeiriadau at gleddyfau arwyr chwedlonol a geir mewn cywyddau a ganodd Iolo Goch a Rhys Goch Eryri i ddiolch ac i ofyn am gyllyll a hefyd yng nghywydd 'Y Cleddyf' gan Ddadydd ap Gwilym, cerdd gynharach sy'n perthyn yn fras i *genre*'r canu serch.⁹⁴ Mae'n ddiddorol fod y

⁹⁰ *GCBM*, i, 23.7; Day, 'Arfau', 302–3.

⁹¹ Ar y dechneg hon, gw. Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, pennod 10.

⁹² *GOLIM*, 20.13–14, 41–2.

⁹³ Fel Owain ap Llywelyn ab y Moel, gofynna Llawdden am gleddyf a bwled i noddwr (*GLL*, cerdd 14); gofynnir am gleddyf dros noddwr yng ngherddi Ieuan ap Tudur Penllyn ac 'Y Nant' (*GTP*, cerdd 45; *GyN*, cerdd 3), a gofynna Gutun Owain a Lewys Glyn Cothi am gleddyf drostynt eu hunain (*GO*, cerdd XVII; *GLGC*, cerdd 209); at hynny, ystyrir 'Cywydd y Cleddau' Dafydd Llwyd o Fathafarn, bardd arall o'r bymthegfed ganrif, yn '[g]ywydd brud ar ffurf cywydd i ddiolch am gleddau' (*GDLI*, cerdd 5 a t. 193). Gw. ymhellach Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, tt. 18, 177–8, 235–6, ac ar gerddi tebyg gan feirdd y Cyfnod Modern cynnar, gw. *ibid.*, tt. 58, 103, 109, 140, 237.

⁹⁴ *Canu Gofyn a Diolch*, tt. 177–8; *DG.net*, 71.24 (*Cyrseus*), 44 (*Hawt-clŷr*); *GIG*, XI.38 ([*D*]urendardd), 40 (*Hawd y Clŷr*), 42 (*Angau Coch*), 44 ([*C*]aledfwlch), 47 ([*C*]wrseus); *GRhGE*, 5.72 (*Rhawd y Clŷr*), 74 (*Cwrseus*), 76 ([*C*]aledfwlch), 78 ([*D*]urendardd). Cf. hefyd *GyN*, 3.5, 9, 13, 18, 22, 26; *GO*, XVII.23, 30, a t. 112. Nid oes unrhyw gyfeiriad at gleddyf a chanddo ei enw ei hunan yn y farddoniaeth cyn c.1300 (Day, 'Arfau', 323).

tair cerdd yn cymharu'r arf â *challestr* 'fflint' ac â mellten, a bod Dafydd ap Gwilym a Iolo Goch yn ei ddisgrifio'n symud ar ffurf *rhod* neu *dröell* wrth ei gymharu â than yn y naill achos a mellten yn y llall.⁹⁵

Gellid ystyried cymhariaeth rhwng arf a than neu fellten yn rhan o'r ddelweddaeth a etifeddwyd o'r traddodiad canu mawl cynharach, ac yn wir, mae'n drawiadol faint o 'adleisiau' tebyg sydd i'w canfod yng nghywyddau gofyn y bymthegfed ganrif, hyd yn oed.⁹⁶ Disgrifia cerdd 'Y Nant' gleddyf sy'n *hirllym* (hir a miniog), yn *esgud* ac yn *[d]anllachar*, ac ymddengys mai'r cleddyf a olygir pan honna'r bardd y bydd yn *dangos fy mellten / Naw ugain milltir*.⁹⁷ Yn yr un modd, yng nghywydd gofyn Gutun Owain mae'r cleddyf yn *llath danlled* ac o ran ei ddisgleirdeb mae fel *llewych haul ar y llwch*.⁹⁸ Cyfeiria Llawdden at *[f]laen tanllyd* y cleddyf y gofynna amdano, gan nodi ei fod yn *odidowgloyw*, yn *[l]lifaid* ac *fal fflamgwyr golau*,⁹⁹ ac yng nghywydd gofyn Ieuan ap Tudur Penllyn cymherir y cleddyf â *meinfellt*, yn ogystal â honni bod arno *ddau fin a ddeifiai wyneb*.¹⁰⁰

Gofynna Lewys Glyn Cothi am gleddyf *golau* a *gloyw*, sy'n *[d]ra llym* ac o *[d]dur awchus*, a geilw'r arf yn *llain las*; at hynny, ceir ganddo amrywiad trawiadol ar ddelweddaeth hogi arf:

eilliau a wnafl, myn llaw Non,
i holl ieuainc Caerlleon;
ar bob taeog yr hogaf
asen ddu os yno'dd af.¹⁰¹

⁹⁵ *DG.net*, 71.26 (*callestr ydwyd*), 29 (*ufelfellt*; gw. n. 135 isod, am y dehongliad), 38 (*Rhed, y dur, fal rhod o dân*); *GIG*, XI.8 (*callestrfin*), 91–2 (*I droi'n fy nghylch yn dröell / Fel mellten burwen o bell*); *GRhGE*, 5.59 (*tanllif gallestr gur*), 84 (*ysgyren mellit*).

⁹⁶ Cf. y drafodaeth ar ddisgrifiadau o feirch yn Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, tt. 185–8.

⁹⁷ *GyN*, 3.2, 28, 108, 99–100. Cf. y *mellt a lluchwynt* yn ll. 107, er nad yw perthynas y rhain â'r arf yn eglur.

⁹⁸ *GO*, XVII.28, 26.

⁹⁹ *GLI*, 14.28, 52, 55, 37.

¹⁰⁰ *GTP*, 45.25, 38.

¹⁰¹ *GLGC*, 209.45–6, 48, 40, 43, 51–4.

Un math o ddelweddaeth nad oedd mor hoff gan feirdd y canu gofyn oedd *topos* y cleddyf toredig neu dreuliedig. Wrth reswm, yn y *genre* hwn tueddid i ganolbwyntio ar ansawdd gwych yr offer, ond yn y canu mawl cynharach roedd arf toredig yn symbol amlwg o ddewrder a dygnwch rhyfelwr, gan awgrymu ei fod wedi brwydro'n nerthol a heb gilio serch y difrod i'w offer.¹⁰² Gwaywffyn a tharianau a grybwyllid amlaf yn y cyd-destun hwn, gan adlewyrchu eu swyddogaeth a'u gwneuthuriad. Prif ddiben tarian oedd derbyn ergydion, a gallai barhau i fod yn ddefnyddiol er bod ynnddi fylchau neu dolciau sylweddol. O ran gwaywffon, er y gallai'r paladr pren dorri'n gymharol hawdd mewn brwydr, y tebyg yw y byddai gan y rhyfelwr arf arall, megis gwaywffon arall neu gleddyf, y gallai ymladd ag ef. Ar y llaw arall, roedd cleddyf yn arf drud na ddisgwyliid iddo dorri'n hawdd oni bai ei fod o wneuthuriad gwael, a phe torrai, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol. Felly, roedd gwahanol fathau o gysylltiadau negyddol yn ymwneud â chleddyfau toredig nad oeddynt mor berthnasol i arfau eraill.

Nid oes yr un cyfeiriad at ddifrod i gleddyf nac i lafn yn 'Y Gododdin', er disgrifio difrod i waywffyn ac yn arbennig i darianau.¹⁰³ Ond gwelir agwedd wahanol yng ngherddi Beirdd y Tywysogion, gydag ansoddeiriau megis *anghyfan*, *brïw* (yn yr ansoddair cyfansawdd *llafnfrïw*), *trwch* (yn *llafndrwch*), *twñ* (hefyd yn *llafndwn*) ac yn enwedig *bwlch/bolch* (fel ffurf gysefin ac mewn enwau ac ansoddeiriau cyfansawdd) yn cael eu defnyddio yng nghyswllt llafnau a chleddyfau.¹⁰⁴ Un peth diddorol am rai o'r cyfeiriadau hyn yw'r argraff a geir fod cleddyfau 'toredig' yn arfau da ac effeithlon o hyd. Mewn cerdd gan Phylip Brydydd ceir yr ansoddair *twñ* ynghyd ag *ysgwn* ('parod, dewr, cadarn') yn goleddfu *cleddyf*, ac mae'n debygol mai *cledd* a oleddfir gan *llafndwn* ac *ysgwn* mewn llinell gan Lywelyn Fardd II, lle cyfosodir yr ymadrodd

¹⁰² Weithiau hefyd cyfeirir at arfau toredig mewn disgrifiadau cyffredinol o frwydro, neu wrth gannol rhyfelwr sy'n ymladd mor ffynig nes torri arfau gelynyion; gw. y drafodaeth ar waywffyn a tharianau yn Day, 'Arfau', 256–62, 392–8.

¹⁰³ Day, 'Weapons', 133.

¹⁰⁴ *GLLI*, 23.87 (*llafnawr anghyfan*); *GCBM*, i, 16.183 (*llafnfrïw*); *GBF*, 8.3 (*llafndrwch*); *GDB*, 14.14 (*cleddyf ysgwn twñ*); *GCBM*, i, 20.52 (*llafndwn*); *GDB*, 8.7 (*cledd ysgwn llafndwn*); *GBF*, 14.22 (*llafndwn*); gw. n. 108 isod, am yr arfau *bwlch/bolch*.

hwn ag ofn a achosir i bobl Llundain.¹⁰⁵ Yn yr un modd, cyfeiria Prydydd y Moch at lafnau sy'n [f]wlch ac yn hogedig, ac sydd hefyd 'yn gyfarwydd â brwydr': *Yn fwyaf, balchaf bwlch lifaid—lafnawr, / Yn wriawr orddyfnaid.*¹⁰⁶

Gellid deall cyfeiriadau o'r fath yn yr ystyr fod y difrod yn symbolaidd ac wedi ei gyffredinoli; hynny yw, bod y gwrthrych yn arfer brwydro mor galed ac mor nerthol fel na fyddai'n syndod pe bai'n torri arf weithiau. Neu, gellid eu hystyried yn ganmoliaeth ystrydebol i ddewrder y gwrthrych ar batrwm disgrifiadau cyffredin y beirdd o waywffyn a tharianau toredig. Yn wir, ceir enghreifftiau o bob un o'r ansoddeiriau a nodwyd uchod, sef *anghyfan*, *briw*, *trwch*, *twn* a *bwlch*, yn disgrifio difrod i darianau hefyd yn y cerddi o'r cyfnod cyn tua 1300, a defnyddid *twn* a *briw* am waywffyn.¹⁰⁷ Mae'n ddiddorol nad oes yr un enghraifft sicr o *bwlch* yn disgrifio gwaywffon yn y cyfnod hwn, ac ystyried mor gyffredin oedd y gair yng nghyswllt cleddyfau a llafnau, gan gael ei ddefnyddio yn ei ffurfiau cysefin (*bwlch/bolch*) ac yn y cyfansoddeiriau *bolchgledd* a *bolchlafn/bylchlafn*.¹⁰⁸ Awgryma hyn y gall fod ganddo ystyr benodol a oedd yn peri i'r beirdd ei ddefnyddio mewn perthynas â chleddyfau (a tharianau) yn arbennig.¹⁰⁹

Fel enw, gall *bwlch* olygu 'adwy, hollt' a 'rhicyn', ymysg pethau eraill, ond yng nghyswllt arfau fe'i ceir amlaf fel ansoddair, a'i ystyron yn cynnwys 'tolciog' a 'danheddog' yn ogystal â

¹⁰⁵ *GDB*, 14.14; *ibid.*, 8.7 *Cledd ysgwn llafndwn, orofn Llundain—lawr*. Nid *cledd* ond *cler* sydd yn y llawysgrif; ar y diwygiad, gw. *ibid.*, t. 122; *G*, t. 146.

¹⁰⁶ *GLILLI*, 6.45–6.

¹⁰⁷ Day, 'Arfau', 257, 392–3.

¹⁰⁸ Ceir y ffurfiau cysefin yng nghyswllt cleddyf, llafn neu *lain* yn *GCBM*, i, 16.143; *GCBM*, ii, 9.61–2; *GLILLI*, 6.45, 21.15; *GDB*, 25.27 (Dafydd Benfras); *GBF*, 55.18 (Bleddyn Fardd). Ceir *bolchgledd* yn *ibid.*, 3.19, 8.11, 20.3 (y Prydydd Bychan) a *bolchlafn/bylchlafn* yn *GCBM*, i, 16.22; *GCBM*, ii, 6.295; *GDB*, 6.3 (Einion Wan), 29.88 (Dafydd Benfras); *GBF*, 7.9, 9.27, 13.9 (y Prydydd Bychan), 24.114, 25.47, 69 (Llygad Gŵr). Cyfosodir ffurfiau ar *bwlch* a *balch* yn aml, a diau fod y cyseinedd hwylus rhwng y ddau air yn rhannol gyfrifol am amlygrwydd cleddyfau a llafnau *bwlch* yn y farddoniaeth.

¹⁰⁹ Dylid nodi bod Cynddelw wedi crybwyll *bwlch arfau* hefyd (*GCBM*, i, 12.26; cf. *GSRh*, 6.80 (*hyrddarf fylchfin*; 10.34 (*bylcharf*)). Yr unig achos posibl o waywffyn *bwlch* yn y farddoniaeth cyn c.1300 yw'r ymadrodd *bwlch ynn heddiw* (*GCBM*, ii, 7.10), os dehonglir *ynn* yn un o ffurfiau lluosog *onnen*, ond gellid yr ystyr '[mae] colled i ni heddiw' (gw. *ibid.* n.).

‘drylliog’.¹¹⁰ Felly, efallai fod gan gleddyf *bwlch* nifer o fylchau bach neu riciau ar hyd min y llafn, yn unig, yn hytrach na’i fod wedi torri’n ddarnau neu wedi ei wanychu gan fylchau mawr.¹¹¹ Gellid cymharu’r cyfeiriad at lafnau’n cael eu treulio wrth daro pen(nau) yn ‘Gwasgargerdd Myrddin yn y Bedd’: *Du6 Merchyr, dyd kyghorfen, / Y treulya6r llafna6r ar benn*.¹¹² Ceir awgrym cryf fod cyflwr *bwlch* llafn yn gysylltiedig â thraul brwydr, yn yr un modd, mewn llinellau o awdl ddadolwch Cynddelw i’r Arglwydd Rhys, *Bolch ei lafn o lafur ffosawd, / Bwlch ei gledd, balch ei gleddyfawd*,¹¹³ a hefyd, efallai, yn nisgrifiad Dafydd Benfras o un o frwydrau Llywelyn ab Iorwerth:

Oedd clybod cleddyfau finfin,
 Oedd clybod clwyf ym mhob elin,
 Oedd briw rhiw yn nhrabludd edrin,
 Oedd braw saw Saeson Clawdd y Cnwcin,
 Oedd bwlch llafn yn llaw gynefin¹¹⁴

Yma, fel yng ngherdd Cynddelw, awgrymir bod y llafn yn [f]wlch o ganlyniad i’r frwydr, ac yn wir, efallai y gellid cysylltu ei gyflwr â swm y cleddyfau sy’n *finfin*, yn taro yn erbyn ei gilydd, yn y llinell gyntaf a ddyfynnwyd.

Mae’n bosibl iawn fod ystyr *bwlch/bolch* yn debyg yn yr holl achosion eraill lle’i ceir yng nghyswllt cleddyfau neu lafnau yng ngwaith Beirdd y Tywysogion. Gellid ystyr gyffelyb yn achos tarianau hefyd; hynny yw, bod ar y darian nifer fawr o dolciau bach a grëwyd gan ergydion arfau niferus. Cymharer, er enghraifft, linell

¹¹⁰ Gw. *G*, t. 84; *GPC*, d.g. *bwlch*; cf. yr aralleiriadau ar gyfer, e.e. *GLILLI*, 6.45; *GBF*, 3.19, 55.18. Ceir achos o *bwlch* yn yr ystyr enwol ‘hollt’, mae’n debyg, yn llinell Cynddelw, *Coch bwlch ei läin o drin, o drydar* (*GCBM*, i, 16.143). Posibilrwydd arall fyddai deall *bwlch* yma yn air am y rhigol ar hyd canol y llafn (Saesneg ‘fuller’) sy’n nodwedd gyffredin iawn ar gleddyfau canoloesol. Ymddengys, fodd bynnag, mai *canol* oedd yr enw arferol am y rhigol hon; gw. *GPC*, d.g. *canol* 2(b); cf. y gair *canolrudd* yn *GMBen*, 17.34; *GRhGE*, 3.10.

¹¹¹ Gw. Day, ‘Arfau’, 317. Mae gan nifer o’r cleddyfau canoloesol sydd wedi goroesi riciau o’r fath; gw. Oakeshott, *Records*, tt. 11, 59, 105.

¹¹² Manon Bonner Jenkins, ‘Aspects of the Welsh prophetic verse tradition in the Middle Ages’ (Ph.D. Cambridge, 1990), 91–119 (llau. 71–2).

¹¹³ *GCBM*, ii, 9.61–2.

¹¹⁴ *GDB*, 25.23–7.

gan Gynddelw: *Oedd bwlch ei ysgwyd, nid ysgoges*.¹¹⁵ Ond wrth gwrs, ni fyddai *bwlch* yn yr ystyr hon mor addas yng nghyswllt gwaywffon, am fod yr arfau hyn yn fwy tebygol o dorri'n ddarnau yn hytrach na chasglu olion traul. Felly, mae'r ystyr a gynigiwyd yn esbonio'r gwahaniaeth a welir yn nefnydd *bwlch* mewn perthynas â'r gwahanol fathau o arfau. Mae'n rhaid nodi, fodd bynnag, fod sawl dehongliad wedi ei gynnig ar gyfer ail elfen *Caledfwlch*, cleddyf y Brenin Arthur, a bod union ystyr y cyfansoddeiriau *bolchgledd* a *bolchlafn/bylchlafn*, yn parhau i fod yn ansicr.¹¹⁶

Ymddengys fod pethau wedi newid ar ôl tua 1300. Pan ystyrir gwaith y Gogynfeirdd diweddar, ceir pedwar neu bum achos o ryw ffurf ar *bwlch* yng nghyswllt *cledd*, *llafn* neu *lain*, mewn cerddi gan Ruffudd ap Maredudd, Einion Offeiriad a bardd dienw,¹¹⁷ ond yn ychwanegol at y rhain ceir pedwar achos yng nghyswllt gwaywffon (mewn cyfansoddeiriau gyda *rhaidd* a *rhôn*) gan Ddafydd y Coed a Sefnyn, ac un, gan Ruffudd ap Maredudd, lle'r ymddengys y cyfeiria *bylchlafn* at ben gwaywffon (*pâr*).¹¹⁸ Awgryma hyn (os yw'r dehongliad uchod yn gywir) fod beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg wedi anghofio ystyr benodol *bwlch* mewn perthynas â chleddyfau, gan ei ystyried yn air traddodiadol y gellid ei ddefnyddio i ddisgrifio gwaywffyn a chleddyfau fel ei gilydd.

¹¹⁵ *GCBM*, i, 21.98 ('Marwnad Cadwallon ap Madog ab Idnerth o Faeliennydd').

¹¹⁶ Gw. Patrick Sims-Williams, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature* (Oxford, 2011), tt. 165–6, lle nodir y gallai'r elfen *bwlch* olygu 'amddiffyn' yn ogystal â 'bwlch (i gael ei amddiffyn)', a bod yr ystyr 'amddiffyn' yn cael ei chynrychioli mor gynnar â chyfnod Hen Gymraeg, mewn enwau megis *Tutbulc* (Tudfwlch). Awgrymwyd hefyd y gallai ail elfen *Caledfwlch* gyfeirio at greu bylchau, sef, naill ai bod y cleddyf yn 'fylchwr' caled, neu'n bylchu rhywbeth sy'n galed, neu'n creu bwlch drwy galedi brwydr; gw. *CO*, tt. 65–6; John T. Koch, 'Caladbolg/Caledfwlch/Excalibur', yn *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia*, vol. I, ed. *idem* (Santa Barbara, 2006), tt. 328–30; Sims-Williams, *Irish Influence*, tt. 165–6. Am gyfeiriadau cynnar at Galedfwlch, gw. *CO*, llau. 159, 1051; *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942). Nid tan y bedwaredd ganrif ar ddeg y ceir cyfeiriadau ato yn y farddoniaeth; gw. *GIG*, XI.44; cf. *GRhGE*, 5.76; *GyN*, 3.9; *GO*, XVII.30.

¹¹⁷ *GGMD*, i, 3.91, 4.40 (*bylchlafn*), 5.68 (*bwlch ei gledd*); *GEO*, 1.49 (*bwlchlain*). Cf. *amwlch gledd* yn *GLIBH*, 8.29, a gw. *GPC*², d.g. *amwlch*¹, lle cynigir yn betrus darddiad o *am*-² a *bwlch*.

¹¹⁸ *GSRh*, 3.33 ([*b*]olchraidd); *GDC*, 3.111 ([*b*]ylchraidd); *ibid.*, 2.1, 3.31 (*bylchron*); *GGMD*, i, 4.40 (*pâr bylchlafn balch*).

Nid wyf wedi llwyddo i ddod ar draws unrhyw achos o'r gair neu'r elfen *bwlch* mewn perthynas ag arf ym marddoniaeth y bymthegfed ganrif, ac eithrio yn yr enw priod *Caledfwlch*.¹¹⁹ Yn wir, ymddengys fod cyfeiriadau o unrhyw fath at gleddyfau neu lafnau toredig wedi dod yn anghyffredin ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol diweddar.¹²⁰ Efallai fod yr agwedd hon ar yr hen ddelweddaeth 'arwrol' yn rhy eithafol ac ystrydebol i gadw ei lle yn y traddodiad canu mawl, wrth i feirdd y bymthegfed ganrif ganolbwyntio mwy ar fywydau go iawn y noddwyr.¹²¹

Gwelir delwedd y cleddyf toredig wedi ei chymhwyso at ddiben gwahanol mewn marwnad gan Guto'r Glyn:

Mi a welais, mau wylaw,
 Freuddwyd oer, i fardd y daw:
 Torri cledd, dewredd i'm dwrn,
 Yn ei said ar nos Sadwrn.
 Y cleddau, pan ei claddwyd,
 Oedd capten o wŵr llên llwyd.¹²²

Yma mae *torri cledd* a'i gladdu yn drosiad am farwolaeth ac angladd y gwrthrych, Syr Bened ap Hywel, person Corwen. Mewn cerdd arall geilw Guto'r un noddwr yn [*filwr eglwys Gorwen* ac yn *filwr a thŵr o wneuthuriad*, a hyn yn awgrymu y gall fod ganddo gefndir

¹¹⁹ Gw. n. 116 uchod.

¹²⁰ Ceir y gair *llafnfrïw* gan Ddafydd ap Gwilym wrth ganmol Ifor Hael (*DG.net*, 17.43), ond gall fod yn arwyddocaol fod hwn yn digwydd mewn awdl yn hytrach nag mewn cerdd ar fesur newydd y cywydd.

¹²¹ Gw. Ann Parry Owen, *Plu porffor a chlog o fwng ceiliog: Cynddelw Brydydd Mawr a Guto'r Glyn* (Aberystwyth, 2017), t. 8. Mae'n ddi-ddorol cymharu *topos* y waywffon doredig, a gadwodd ei le anrhydeddus yn nhraddodiad y canu mawl hyd ddiwedd yr Oesoedd Canol; diau fod hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd ymwan (Saesneg 'jousting') fel adloniant i uchelwyr, am fod torri gwaywffyn yn rhan ganolog o'r 'chwarae' hwn (gw. Jenny Day, '“Arms of stone upon my grave”: Weapons in the poetry of Guto'r Glyn', yn *Gwalch Cywyddau Gwŷr': Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegfed Ganrif*, gol. Dylan Foster Evans, Barry J. Lewis ac Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013), tt. 233–81 (tt. 242–4)).

¹²² *GG.net*, 47.1–6. Cymharer y cysylltiad rhwng gwaywffon doredig a marwolaeth rhyfelwr a awgrymir ym 'Marwnad y Mab Aillt o Lansadwrn' gan Gynddelw: *GCBM*, ii, 11.11–12 *Gwaetffrau wayw ddiâu ddeuddryll, / Gwaedryd, gwae feirdd byd am Byll!*; gw. ymhellach Day, 'Arfau', 261–2.

milwrol a adlewyrchir hefyd yn natur y trosiad a ddefnyddiodd Guto yn ei farwnad.¹²³ Nid oes sicrwydd am hyn fodd bynnag, a chofier bod Guto'n galw'r Abad Rhys ap Dafydd o Ystrad-fflur yn [g]leddau *abadau byd* mewn awdl foliant iddo ef.¹²⁴

Cyfeiriodd Guto'r Glyn sawl gwaith at ei gleddyf ei hun mewn gwahanol gerddi. Cyfeiriodd at *fin y cledd* wrth amddiffyn ei le yn abaty Glyn-y-groes yn erbyn beirdd eraill, a dymunodd gael delwedd ohono wedi ei cherfio ar ei feddfaen: *A'm bwced a'm bywioledd / Yn arfau maen ar fy medd*.¹²⁵ Yn wir, ymddengys iddo deimlo mai'r cleddyf oedd yr arf a gynrychiolai orau yr agwedd filwrol ar ei bersona, er y gwyddys iddo fod yn saethydd proffesiynol am gyfnod yn ei ieuenctid.¹²⁶

Nid yw'n syndod fod cleddyf mor bwysig i fardd-filwyr megis Guto'r Glyn a Gwalchmai ap Meilyr. Roedd yn arf gwerthfawr, trawiadol ei olwg ac uchel ei statws; roedd angen cryn allu a medr i'w drin yn effeithiol, ac yn wahanol i fwa (neu waywffon dafl) roedd angen dod o fewn cyrraedd i'r gelyn yn hytrach na'i ladd o bell. Yn ddelfrydol byddai hyd, pwysau a chydbywysedd cleddyf yn gweddu i faint corfforol a chryfder y rhyfelwr, ac yn addas ar gyfer ei ddull arbennig ef o ymladd. Gallai dyn gadw cleddyf da drwy gydol ei yrfa, yn wahanol i waywffon a oedd yn debygol o dorri neu gael ei thaflu mewn brwydr; ac yn wahanol i darian, a geir yn aml yn cynrychioli rhyfelwr fel amddiffynnwr, gallai'r beirdd ddefnyddio cleddyf i awgrymu ymosod a goruchafiaeth.¹²⁷

Byddai'r arfer gyffredin o wisgo cleddyf ar wregys, fel ei fod *ar glun* y rhyfelwr, wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng yr arf a'i berchennog am y byddai pobl wedi gweld yr arf mewn cyd-destunau

¹²³ *GG.net*, 43.6, 47; gw. ymhellach nodyn R. Iestyn Daniel ar Syr Bened, *ibid.*

¹²⁴ *Ibid.*, 8.21. Cf. hefyd y cyfeiriadau at Dduw fel *eurgledd* yn *GDC*, 5.68; *GGrG*, 3.39.

¹²⁵ *Ibid.*, 116.51–2, 110.65–6; gw. ymhellach nodiadau esboniadol Ann Parry Owen, *ibid.*, a Day, ‘“Arms of stone”’, tt. 255–7.

¹²⁶ Eurig Salisbury, *Ar Drywydd Guto'r Glyn ap Siancyn y Glyn* (Aberystwyth, 2007); Day, ‘“Arms of Stone”’, 255–7, 279–81.

¹²⁷ Ar arwyddocâd ffigurol tarianau, gw. Day, ‘Arfau’, 404–6.

heddychlon a dod i'w adnabod.¹²⁸ Mae'n bosibl, felly, y byddai cynulleidfa Gwalchmai wedi meddwl am arf hysbys wrth iddo gyfeirio at ei gleddyf *llachar* a *lluch*. Gellid cymharu'r sylw neilltuol a roddodd Llywarch Llaety i gleddyf Llywelyn ap Madog (mab Madog ap Maredudd), a'r dull holi-ac-ateb yn rhoi'r argraff y dylai'r gynulleidfa fedru adnabod y perchennog ar sail y disgrifiad o'r arf:

Piau y cleddyf clau—a drafodir,
Clwyfir, dir, diamau?
Clodfawr, clywitor nad gau,
Cafas lladd â'r llaw ddeau.¹²⁹

Cyfeiriwyd yn barod at honiad Gwalchmai fod ei gleddyf *llachar* ef yn ei amddiffyn,¹³⁰ a gwelir math arall o bersonoli ym marwnad Cynddelw i osgordd Owain Gwynedd, a'r bardd yn cyfarch ei gleddyf fel pe bai'n gydymaith:

Gwae fi, gleddyf glân, gloywddrud—i'th arwain,
O'th arwfodd osymud,
Medel draws a drais laddud,
Meurig befr bieuoeddud.

Gwae fi, gleddyf glân, gloyw ddaerawd—i'm llaw,
O'r llachar ddiwyrnawd,
Llas Trawswalch, trais ei ddefawd,
Fal yd las Breichfras ei frawd.¹³¹

¹²⁸ Cf. llinell o gerdd ddiolch Cynddelw, *Cleddyf clod wasgar a wisgaf ar glun* (*GCBM*, i, 23.5), a chwpled cyntaf cywydd 'Y Cleddyf' gan Ddafydd ap Gwilym, a ddyfynnir isod.

¹²⁹ *GLIF*, 16.17–20. Disgrifir *ysgwyd* 'tarian', *rhodawg* 'tarian gron' ac *arfau* Llywelyn yn llau. 9–16, 25–8, 33–4.

¹³⁰ *GMB* 9.19 (dyfynnwyd uchod). Cf. y personoli tebyg yn *CR*, LXVI.8–9 *Durendard*, *vygledyf i*, *vyd canorthwywr ymi*, *yr hwnn a gerda heddiw ymhlith y paganieit megis luchaden vuan llem*.

¹³¹ *GCBM*, ii, 5.133–40 ('Gwae fi, gleddyf prydfferth, disglair a ffyrnig i'th gludo, / Oherwydd dy symud mewn dull creulon, / Mintai gadarn [o ymladdwyr] a leddit trwy orthrech, / Meurig hardd oedd yn berchen arnat. / Gwae fi, gleddyf prydfferth, rhodd ddisglair yn fy llaw, / Oherwydd y diwrnod tanbaidd, / Lladdwyd Trawswalch, gorthrechol ei arfer, / Fel y lladdwyd Breichfras ei frawd').

Ymddengys fod y cleddyf wedi bod yn dyst i farwolaeth ei gynberchennog, ac efallai ddau ŵr arall, cyn dod i feddiant Cynddelw. Gellid cymharu'r disgrifiadau yn storïau Siarlymaen o arwyr yn cyfarch eu cleddyfau wrth hel atgofion neu ysgogi'r arf i ymladd orau y gallai, fel yn achos geiriau Gwenlwyd yn 'Cân Rolant': '*A gledyf da, fydlawn, prouedic wyt ti ymi yn llawer o berygleu, ac ar awr honn mi a brouaf dy fydlonder ...*'¹³²

Cyfarch ei arf a wna Dafydd ap Gwilym drwy'r rhan fwyaf o'i gywydd 'Y Cleddyf', gan ei ddarlunio'n gydymaith, yn was ac yn amddiffynnwr iddo. Egyr y gerdd drwy bwysleisio'r berthynas agos rhwng y ddau:

Rhyhir wyd a rhy gyflun,
 Rho Duw, gledd, ar hyd y glun.
 Ni ad dy lafn, hardd-drafn hy,
 Gywilydd i'w gywely.
 Cadwaf i di i'm deau,
 Cedwid Duw y ceidwad tau.¹³³

Mae gan y cleddyf hwn nifer o'r priodoleddau a folid yn y cerddi cynharach. Mae'n ddisglair ac yn finiog ([g]loywgledd *canoliglym*), yn [d]deufin, ac ef yw'r cleddyf cyflymaf (*ehuta' cledd*);¹³⁴ mae *fal rhod o dân* wrth symud, ac yn *ufelfellt* 'o fellt tanllyd'.¹³⁵ At hynny, estynnir hen ddelwedd yr arf fflamlyd, o bosibl, drwy alw'r cleddyf yn [g]allestr, sef rhywbeth sy'n creu gwreichion.¹³⁶

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r cleddyfau yn y canu cynharach, ni ddarlunnir cleddyf Dafydd ap Gwilym yng nghydestun brwydr. Yn hytrach, gwaith yr arf hwn yw amddiffyn y bardd

¹³² CR, XXX.3–4; cf. YCM², 125.20–2. Cymharer hefyd *ibid.*, 76.12–17, 157. 2–4.

¹³³ DG.net, 71.1–6.

¹³⁴ *Ibid.*, llau. 32, 28, 44. Ystyr yr elfen *canolig* yw 'â rhigol'; am y gair *canol* yn y cyd-destun hwn, gw. n. 110 uchod.

¹³⁵ *Ibid.*, llau. 38, 29. Nid yw dehongliad ll. 29, *Cyfylyfin cae ufelfellt*, yn hollol amlwg, ond mae'n debygol fod *cyfylyfin* ('ymyl, min' yn ôl GPC) yn cynrychioli'r cleddyf neu ei lafn a bod *cae* yn dynodi gwregys y cleddyf (gw. y nodyn ar y llinell hon yn DG.net); felly, canmolir cleddyf a wisgid ar wregys ac a oedd hefyd yn *ufelfellt*.

¹³⁶ *Ibid.*, ll. 26, a gw. n. 48 a 95 uchod.

rhag y sawl a geisiai rwystro ei anturiaethau carwriaethol, a Dafydd yn cyfeirio'n benodol at yr elyniaeth rhyngddo a gŵr ei gariadferch: *Gŵr fy myd ni gar fy myw*.¹³⁷ Felly, er nad yw Dafydd yn filwr, yr awgrym yw ei fod yn ddigon beiddgar fel carwr, fel y dywed ei hun yn y cywydd 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra'.¹³⁸ Cynrychiola'r cleddyf y beiddgarwch hwnnw, a gellid ei ddeall hefyd yn symbol o'i rym rhywiol neu'n symbol ffallig.¹³⁹

Yr unig achos yn y farddoniaeth lys gynharach o arf ac iddo swyddogaeth a symboliaeth debyg yw *lläin* y bardd-dywysog Hywel ab Owain yn ei 'Gorhoffedd':¹⁴⁰

Moch gwelwyf, a'm nwyf yn eddëin—i wrthaw
Ac i'm llaw fy lläin,
Lleucu glaer, fy chwaer, yn chwerthin,
Ac ni chwardd ei gŵr hi rhag gorddin.¹⁴¹

Ymddengys fod Hywel yn disgrifio oed â'i gariad a bod ei gŵr wedi cyrraedd yn annisgwyl, a'r tebyg yw bod *double entendre* bwriadol o ran beth yn union yw'r *lläin*.

Yn wahanol i Ddafydd, ni rydd Hywel sylw pellach i'r arf hwn yn ei gerdd.¹⁴² Yn wir, 'Gorhoffedd' Gwalchmai sydd debycaf i gywydd Dafydd o ran y darlun o'r arf gwych a melltenol sy'n amddiffyn ei berchennog, er na eilw Gwalchmai ei hun yn *feistr* ar

¹³⁷ *Ibid.*, 71.9.

¹³⁸ *Ibid.*, 72.17–20 *Cyd bwyf was, cyweithas coeth, / Llwfwr yn nhrin, llawfron rhynoeth, / Nid gwas, lle bo gwyrddlas gwýdd, / Llwfwr wyf ar waith llyfr Ofydd.*

¹³⁹ Gw. Helen Fulton, *Dafydd ap Gwilym and the European Context* (Cardiff, 1989), t. 216; Dafydd Johnston, 'Hywel ab Owain a Beirdd yr Uchelwyr', yn *Hywel ab Owain*, tt. 134–51 (t. 147); a rhagymadrodd Dylan Foster Evans i gerdd 71 yn *DG.net*.

¹⁴⁰ Awgryma Haycock, 'Living with war', t. 86, fod 'suggestive sword-blade metaphor' yn 'Afallennau' Myrddin (*LIDC*, 16.28–9; dyfynnir yn n. 8 uchod), ond nid yw hwn mor awgrymog a beiddgar â'r un yng ngherdd Hywel.

¹⁴¹ *GLIF*, 6.63–6 ('Buan y gwelwyf, a'm nwyf yn ddieithr iddo / A'm cleddyf yn fy llaw, / Leucu loyw, fy nghariadferch, yn chwerthin, / Ac ni chwardd ei gŵr oherwydd cythrudd').

¹⁴² Er bod Hywel yn filwr profiadol, nid oes ond un cyfeiriad yn y 'Gorhoffedd' ato ef ei hun yn brwydro, a *gwayw* yw ei arf yno (*GLIF*, 6.21).

yr arf fel y gwna Dafydd.¹⁴³ At hynny, mae math arall o bersonoli cleddyf a welir yng nghywydd Dafydd, sef y ffaith fod y bardd yn ei gyfarch fel pe bai'n ddyn, i'w gael ym marwnad Cynddelw i osgordd Owain Gwynedd, er bod y cyd-destun yn wahanol. Mae'n ddiddorol cymharu cerdd arall gan Gynddelw, sef 'Rhieingerdd Efa', lle cyfarch y bardd ei farch ar ddechrau pob caniad; yma, hefyd, ymddengys fod nodweddion yn cael eu rhannu rhwng y bardd a'i gydymaith, gan gynnwys arlliwiau'n ymwneud â grym rhywiol, o bosibl.¹⁴⁴

A dychwelyd at 'Gorhoffedd' Gwalchmai, mae'n werth ystyried a oes arlliwiau rhywiol gan y cleddyf yma, fel yng ngherddi Hywel a Dafydd. Fel y nodwyd uchod, ymffrostia'r bardd am hoffter merched ohono yn ogystal â chyfeirio at y berthynas rhyngddo a'i wraig, Genilles. Ar ddiwedd y gerdd ymddengys ei fod yn gobeithio cael ei wobrwyo ar ôl ei holl deithio a brwydro drwy gael cysgu gyda hi: *Ac os Duw o nef neu ym cynnydd / Ceinfod gan lywy imi, lawr, i'm hunydd!*¹⁴⁵ Fodd bynnag, os amcan y bardd oedd cysylltu ei gleddyf â'i rywioldeb, gwnaeth hynny yn bur gynnwl. Yn wahanol i gerddi Hywel a Dafydd nid oes unrhyw awgrym fod yr arf yn ei amddiffyn rhag canlyniadau cariad godinebus; yn hytrach, creïr yr argraff fod Gwalchmai yn ffyddlon i Enilles, er mawr siom i ferched eraill. Mae'n ddiddorol nodi awgrym Rhian M. Andrews y gallai 'Gorhoffedd' Gwalchmai fod wedi ei berfformio gyntaf tuag adeg eu priodas.¹⁴⁶

Math arall o ddelweddaeth ffigurol a geir yn 'Gorhoffedd' Hywel yw motîff 'arfau serch', wrth iddo gyfeirio at ferch sydd wedi ei ladd *â llafnau deufin*.¹⁴⁷ Awgryma Huw Meirion Edwards fod eironi bwriadol yma am fod Hywel yn filwr yn ogystal â bod yn fardd

¹⁴³ *DG.net*, 71.8 *Meistr wyf a'm grymuster wyd*, 18 *A phoeth fo dy feistr o ffy*. Gw. hefyd Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996), t. 146, lle nodir bod y trosiad sy'n darlunio'r cleddyf yn was sy'n amddiffyn ei feistr i'w weld mewn posau Saesneg a Lladin.

¹⁴⁴ *GCBM*, i, cerdd 5; Parry Owen, 'Rhieingerdd Efa', 81–2; Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i wragedd a merched', 87–8. Ceir motîff tebyg yn awdlau serch Hywel ab Owain (*GLIF*, 7.17–18, 11.1–2); gw. ymhellach Williams, *op. cit.*; Edwards, 'Canu Serch', tt. 95–6.

¹⁴⁵ *GMB*, 9.167–8 ('Ac os Duw of[?]r nef a'm llwydda / [Bydd] gwynfyd gyda'r ferch hardd i mi, geimiad, i'm cwsg!').

¹⁴⁶ 'Golwg ar Yrfa Gwalchmai', 35.

¹⁴⁷ *GLIF*, 6.57, a gw. y drafodaeth ar finioerwydd, uchod.

ac yn dywysog, a gall fod hiwmor tebyg y tu ôl i honiad Gwalchmai, yn ei ‘Gorhoffedd’ ef, fod Genilles yn ei ‘ladd’ â gair.¹⁴⁸ Yn yr un modd, ceir yr ymadrodd *lladd heb arfau* yn ‘Cwyn Serch’ Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, a ganwyd tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg.¹⁴⁹ Ceir motîff ‘arfau serch’ ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym hefyd, er mai gwaywffon yn hytrach na chleddyf sy’n achosi poen iddo yn y cywydd enwog ‘Gwayw Serch’.¹⁵⁰ Cydnabyddir bod y traddodiad cyfandirol wedi dylanwadu ar ddatblygiad canu serch y Cywyddwyr, ac mae ‘Gwayw Serch’ yn un o’r cerddi o waith Dafydd ap Gwilym yr ymddengys iddynt gynnwys adleisiau o’r *Roman de la Rose*, yn benodol;¹⁵¹ ond nid mor hawdd adnabod dylanwadau o’r fath yn y cerddi cynharach. Mae’n bosibl fod beirdd fel Hywel ab Owain yn gyfarwydd â delweddaeth a darddodd o’r traddodiad cyfandirol, ac o waith y bardd clasurol Ofydd yn y pen draw;¹⁵² ond gall fod rhywfaint o arbenigrwydd y ddau Orhoffedd yn ymwneud â pharodrwydd Hywel a Gwalchmai i gyflwyno elfennau o’r canu poblogaidd neu ‘is-lenyddol’ i’w cerddi, yn gymysg ag elfennau o’r canu mawl traddodiadol.¹⁵³

Mae’n rhaid ystyried, hefyd, fod defnyddio llafn neu gleddyf i gynrychioli poen emosiynol yn drosiad a allai ddatblygu’n annibynnol mewn unrhyw gymdeithas lle defnyddid yr arfau hyn yn gyffredin; ac, wrth gwrs, nid oedd y math hwn o drosiad yn gyfyngedig i gyd-destun canu serch. Cyfeiriwyd yn barod at y *llafn*

¹⁴⁸ *Hywel ab Owain Gwynedd*, t. 91; *GMB*, 9.29.

¹⁴⁹ *GGDT*, 5.11, a gw. ateb y ferch yn llau. 39–44; Edwards, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 97–9.

¹⁵⁰ *DG.net*, cerdd 127.

¹⁵¹ Edwards, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 230–1; gw. hefyd Fulton, *Dafydd ap Gwilym*, t. 140.

¹⁵² Edwards, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 97–9. Cyfeiria Hywel at Ofydd wrth ei enw yn *GLIF*, 6.40, ond nid yw hyn yn profi ei fod yn gyfarwydd â’i waith (gw. Edwards, ‘Canu Serch’, tt. 103–4); ac ar wybodaeth y beirdd am Ofydd a’r awgrym y gall eu cyfeiriadau ato fod yn gyffredinol (‘generic’) yn hytrach nag yn benodol, gw. Paul Russell, *Reading Ovid in Medieval Wales* (Columbus, 2017), tt. 203–30. Ond gw. hefyd Parry Owen, ‘Rhieingerdd Efa’, 72–3, yn trafod tarddiad cyfandirol posibl motîff y *ffenestri gwydr* yn ‘Rhieingerdd Efa’ Cynddelw.

¹⁵³ Fulton, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 86–94; Edwards, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 79–90; gw. hefyd y drafodaeth yn Edwards, ‘Canu Serch’, t. 104, sy’n dod i’r casgliad nad oes dylanwadau allanol o bwys yng nherddi Hywel a’i gyfoeswyr i wragedd a merched.

*glas sy'n cynrychioli galar, yn ôl pob tebyg, yn y farwnad a ganodd Peryf ap Cedifor i Hywel ab Owain, a pharhâi beirdd yr Oesoedd Canol diweddar i ddefnyddio arfau at ddiben ffigurol tebyg, fel yn achos 'Myfyrdod Diwedd Oes' Guto'r Glyn lle disgrifir *tri chledd* sy'n clwyfo'r bardd, sef tri phryder mawr am ei dynged pan fydd farw.¹⁵⁴*

Swyddogaeth ffigurol amlycaf cleddyfau yn y cerddi, fodd bynnag, yw cynrychioli rhyfelwyr; ac fel y nodwyd uchod, gallent hefyd gynrychioli dynion grymus eraill neu Dduw hyd yn oed.¹⁵⁵ At hynny, ceir cymhariaeth uniongyrchol rhwng noddwr ac arf gan Gynddelw, wrth ganmol Owain Cyfeiliog, *Yn rhith llafn anwar, llachar llain, / Yn rhith cleddyf claer, clod ysgain—yn aer.*¹⁵⁶ Mae'r cysylltiad a wneir yn y llinellau hyn rhwng cleddyf a thaenu clod yn un cyffredin, a'r beirdd yn hoffi cymryd mantais o'r cyseinned rhwng y geiriau. Mae llinell Prydydd y Moch, *Dy gleddyf dy glod rhyseas*, ymhlith yr enghreifftiau niferus gan Feirdd y Tywysogion,¹⁵⁷ a cheir yr un cyfosodiad geiriau mewn cyd-destunau tebyg mewn cerddi mawl gan feirdd diweddarach megis Dafydd ap Gwilym (*Hir dy gledd, hëir dy glod*) a Guto'r Glyn (*A dwyn clod o dynnu cledd*).¹⁵⁸

Cysylltid cleddyfau ag amddiffyn anrhydedd personol y perchennog weithiau; yn 'Gorhoffedd' Gwalchmai cysylltir y cleddyf â chosbi'r sawl a feiddiai ei sarhau, ac yng nghywydd 'Y Cleddyf' Dafydd ap Gwilym mae'r arf yn cadw'r bardd rhag cywilydd.¹⁵⁹ Ar y llaw arall, awgryma cyfeiriad yn 'Y Gododdin' at arwr yn 'rhoddi' cleddyf i 'gamweithred', *godolei gledyf e gared*, fod yr arf yn cael ei ddefnyddio i gosbi drwgweithredwyr.¹⁶⁰ Yn yr un modd, wrth fynegi cwyn aelodau gosgordd Powys yn erbyn eu harweinwyr yn y gerdd 'Breintiau Gwŷr Powys', cyfeiria Cynddelw atynt yn defnyddio llafn gwaedlyd (*creulafn*) i wrthsefyll 'gwrthwynebiad ac anghyfraith': *I wrthod annod ac anneddf / O*

¹⁵⁴ *GG.net*, 118.43–50.

¹⁵⁵ Gw. y trafodaethau ar *eurgledd* ac ar farwnad Guto'r Glyn i Syr Bened.

¹⁵⁶ *GCBM*, i, 16.164–5.

¹⁵⁷ *GLILL*, 18.20; gw. ymhellach Day, 'Arfau', 311–12.

¹⁵⁸ *DG.net*, 13.38; *GG.net*, 30.60.

¹⁵⁹ *GMB*, 9.75–6; *DG.net*, 71.3–4 (dyfynnwyd uchod).

¹⁶⁰ *CA*, ll. 563.

*greulafn, o greulawn gynneddf.*¹⁶¹ At hynny, ymddengys fod Cynddelw yn ei ddarlunio ei hun yn fardd-ryfelwr sy'n brwydro'n erbyn anghyfiawnder â chleddyf neu waywffon waedlyd yn 'Rhieingerdd Efa', *Bardd Llywelyn hael hud ym gelwir, / Geleurudd, gelyn i bob enwir.*¹⁶² Gall fod adlais yma o 'Gorhoffedd' Gwalchmai, er bod ymffrost filwrol yn llawer llai amlwg yng ngherdd Cynddelw.¹⁶³

Cysylltid cleddyfau â chyfiawnder ac â daioni yn nhraddodiad 'sifalrig' yr Eingl-Normaniaid, a rhoddid iddynt ran bwysig yn seremonïau coroni brenhinoedd ac urddo marchogion.¹⁶⁴ Er nad oes tystiolaeth fod gan gleddyfau rôl seremonïol debyg yng Nghymru Oes y Tywysogion, diau fod rhai beirdd a noddwyr yn gyfarwydd â'r arferion a'r traddodiadau ar draws y ffin. Ceir cofnodion am aelodau o linach frenhinol Powys yn cael eu hurddo'n farchogion mor gynnar â'r ddeuddegfed ganrif, a noda croniel Tewkesbury fod y Tywysog Dafydd, mab Llywelyn ab Iorwerth, wedi ei wregysu â chleddyf gan y Brenin Harri'r Trydydd yn ystod seremoni gwrogaeth yn dilyn marwolaeth ei dad.¹⁶⁵ Serch hynny, nid ymddengys fod beirdd Cymraeg y cyfnod hwn wedi cysylltu cleddyfau â gwrogaeth nac â delweddaeth sifalrig yn eu cerddi mawl, efallai am nad oeddynt yn awyddus i hybu lledaeniad dylanwad yr Eingl-Normaniaid.¹⁶⁶

Roedd unrhyw bryderon o'r fath wedi hen ddiplannu erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif, pan ganodd Hywel Swrdwal, bardd

¹⁶¹ *GCBM*, i, 11.31–2.

¹⁶² *GCBM*, i, 5.126–7. Ar ystyr *geleurudd*, gw. *GPC*, d.g. *gelau*² 'llafn, arf, gwaywffon', *geleurudd* 'gwaywffon waedlyd', a'r aralleiriad '[Un] coch ei gleddyf' ar gyfer *geleurudd* yn *GCBM*, i, t. 70. Nid yw'n amhosibl mai Llywelyn, mab Madog ap Maredudd, a ganmolir yn yr ail linell a ddyfynnwyd, ond ymddengys yn fwy tebygol mai ymffrost y bardd yw hyn.

¹⁶³ Cf. *GMB*, 9.39 *Gwalchmai y'm gelwir, gelyn y Saeson*, 51 *Gwalchmai y'm gelwir, gâl Edwin ac Eingl*.

¹⁶⁴ Gw. y drafodaeth a'r cyfeiriadau yn Day, 'Arfau', 128–31.

¹⁶⁵ David Crouch, *The Image of Aristocracy in Britain, 1000–1300* (London, 1992), tt. 155–6 (am Owain ap Cadwgan); David Stephenson, *Medieval Powys: Kingdom, Principality and Lordships, 1132–1293* (Woodbridge, 2016), t. 50 (am un o feibion Madog ap Maredudd); J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Prince of Wales* (Cardiff, 1998), t. 29, yn dyfynnu o groniel Tewkesbury, i, 115, *accinxit David nepotem suum filium Lewelini gladio militari*.

¹⁶⁶ Cf. Day, 'Arfau', 482–92.

ac iddo gyfenw a thras Normanaidd, am rôl cleddyf pan urddwyd
Wiliam Herbert Ieuanc yn farchog o'r Badd:

Rhoi am hwn, rhwym yw hynny,
Gledd deufin o'i frenin fry.
Hawdd yw ym, caf heddiw win,
Lle 'dd wyf, ddeall ei ddeufin:
Y naill fin llym, ail llafn Llŷr,
Draig las, gyda'r eglwyswyr,
A'r nall, mae 'neall yn ôl,
Wrth fawd y gyfraith fydol.¹⁶⁷

Nid oes unrhyw beth ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion sy'n
debyg i'r llinellau hyn o ran defnydd seremonïol y cleddyf a'r
symboliaeth a briodolir i'w ddau fin. Datblygiad arall yn yr Oesoedd
Canol diweddar oedd yr arwyddocâd newydd a roid i gleddyfau
euraid, a'r rhain, ynghyd â gwregysau, ysbardunau a choleri o aur,
yn agos gysylltiedig â statws marchog. Gwelir hyn mewn cywydd a
ganodd Guto'r Glyn i ddathlu urddo Syr Rosier Cinast o'r Cnwcin
yn farchog:

Euro'i wregis cyn mis Mai,
Euro'i gledd a ryglyddai.
Euro ei draed ar y drin
Y bu'r ynys a'r brenin,
Eurlliw yw gwar y llew gwyn,
Iarll Maelor fo'r llew melyn!¹⁶⁸

At hynny, roedd beirdd y cyfnod hwn yn ymwybodol iawn o
symboliaeth *croes* y cleddyf, sef, dwy fraich y darn croes a oedd,
mewn cyfuniad â'r llafn a gweddill y carn, yn peri bod i'r arf cyfan
ffurf croes estynedig. Gwelir hyn yng nghywydd gofyn Llawdden:

¹⁶⁷ *GHSD*, 6.41–8.

¹⁶⁸ *GG.net*, 79.63–8, a gw. y nodiadau esboniadol. Cf. *GLGC*, 22.33–42 ('Moliant
Dafydd ap Tomas') *Efô a roir ar dy frig / esau aur megis Warwig; / aur trwm ar
y war a'r traed, / aur a ddyly urddolwaed, / aur ar dalcen dy benwn, / aur hyd y
wasg ar dy wân, / aur am dalcen pen pob bys, / aur a drig ar dy wregys, / aur ar dy
gledd rhinweddog, / aur hyd y glust ar dy glog.*

Minnau a'i dwg i'm einioes.
 Mal crair yw ei amlwg groes.
 Os mewn rhyfel y gwelwn
 A dwyn hynt i dynnu hwn,
 Delw'r Grog yn fy ngogylch,
 Dewr y'm cair i'w droi i'm cylch.¹⁶⁹

Crëir cysylltiad yn y llinellau hyn rhwng ffurf yr arf a'i allu i amddiffyn ei berchennog, ac awgrymir hyn hefyd yng ngherdd ofyn Lewys Glyn Cothi, lle gelwir y cleddyf yn [g]roes *wen rhag rhyw was annoeth*, / *Croes Naid o'i uncrys yn noeth*.¹⁷⁰ Mewn cywydd moliant o waith Llawdden defnyddir y groes a rhannau eraill o'r carn at ddiben ffigurrol gwahanol wrth ganmol tri mab Owain ap Gruffudd o Riwsaeson:

Mae'r brodyr (mor bur ydynt!)
 Mal cledd Maelgwn Gwynedd gynt:
 Hywel yw'r pwmel heb bai,
 Ys Dafydd yw'r groes difai.
 Un fetel yw Llywelyn
 Â'r llafn dur. Ai llai ofn dyn?¹⁷¹

Ymddengys, felly, fod delweddaeth a symboliaeth cleddyfau yn y traddodiad barddol wedi datblygu ac ehangu cryn dipyn yn ystod yr Oesoedd Canol diweddar. Yn ogystal â'r agweddau sifalrig a chrefyddol, gwelid dulliau mwy manwl o ddisgrifio neu 'ddyfalu' cleddyfau yn y canu gofyn a diolch ac, yn gynharach, yn 'Y Cleddyf' gan Ddafydd ap Gwilym.¹⁷² Dengys y gerdd hon hefyd hyder a meistrolaeth Dafydd wrth iddo gymhwyso delweddaeth a symboliaeth y cleddyf at ddiben canu serch ac iddo elfen gref o faswedd. Mae'n rhaid nodi, serch hynny, fod symboliaeth ffallig yr arf a'i rôl wrth fygwth gŵr cariadferch i'w gweld hefyd yn 'Gorhoffedd' Hywel ab Owain, a bod y sylw neilltuol a roddir i'r arf

¹⁶⁹ *GLI*, 14.31–6; cf. *GyN*, 3.77–8 *Dellten o ddur rhywiog / A llun delw'r Grog*.

¹⁷⁰ *GLGC*, 209.41–2. Ar y Groes Naid, croes a fu ym meddiant tywysogion Gwynedd ac y credid bod ynddi ran o'r Wir Groes, gw. Smith, *Llywelyn ap Gruffudd*, tt. 199, 334–5, 580–1.

¹⁷¹ *GLI*, 6.39–44.

¹⁷² Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, t. 178.

disglair a melltenol a'i rôl fel cydymaith ac amddiffynnwr y bardd i'w gweld yn 'Gorhoffedd' Gwalchmai.¹⁷³ At hynny, mae agwedd arall ar bersonoli cleddyf a geir yng ngherdd Dafydd, sef cyfarch yr arf fel pe bai'n gydymaith, i'w chael yn y farwnad a ganodd Cynddelw i osgordd Owain Gwynedd. Dylid nodi, hefyd, mai Cynddelw a ganodd yr enghraifft gynharaf o gerdd ddiolch am gleddyf sydd gennym, a bod 'Gorhoffedd' Hywel yn cynnwys enghraifft gynnar o fotîff 'arfau serch'. Dylid rhoi i'r tri Gogynfardd hyn, felly, gyfran deg o'r clod am fod yn arloeswyr gyda delweddaeth a symboliaeth y cleddyf (gan gydnabod, wrth gwrs, ei bod yn bosibl fod elfennau tebyg wedi eu cynnwys mewn cerddi cynharach nas diogelwyd yn y llawysgrifau). Erys ansicrwydd, fodd bynnag, o ran faint o ddylanwad uniongyrchol a gafodd cerddi Gwalchmai, Cynddelw a Hywel ar waith Dafydd ap Gwilym, am y gallai rhai o'r nodweddion a rennir rhwng y cerddi hyn ymwneud â pharodrwydd y beirdd hyn i fabwysiadu delweddaeth a syniadau o'r canu poblogaidd (neu'r traddodiad cyfandirol, o bosibl), ac yn achos rhai motiffau yn y canu serch dylid ystyried effaith sefyllfa gymdeithasol gyfatebol hefyd.¹⁷⁴

Cyfeiriwyd uchod at yr ysgolheictod sydd wedi olrhain dylanwadau a datblygiadau ym maes y canu serch a'r canu gofyn a diolch, a gallai astudiaeth gymharol debyg mewn perthynas â delweddaeth filwrol fod yn ddiddorol iawn. Un peth y gellid ei ystyried ymhellach yw rôl y traddodiad rhyddiaith fel cyfrwng ar gyfer rhai o'r agweddau newydd a welir yng nghanu'r Oesoedd Canol diweddar. Noda Bleddyn Huws, mewn perthynas ag enwau cleddyfau arwyr tramor, fod cynnwys cyfieithiadau o chwedlau cyfandirol wedi dod 'yn rhan o gynhysgaeth pobl ddiwylliedig ac yn rhan o gyfeiriadaeth lenyddol y beirdd',¹⁷⁵ a gall fod hyn yn berthnasol hefyd i ddelweddaeth grefyddol a sifalrig cleddyfau. Fodd bynnag, yn ogystal â dylanwadau o'r fath, y tebyg yw bod rhai

¹⁷³ Gw. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', 86, am yr awgrym fod y Gorhoffeddau 'yn perthyn rywsut i'r un math o gerdd' â'r cerddi hynny o waith Dafydd ap Gwilym sy'n cynnwys elfen o ymffrost.

¹⁷⁴ Gw. Fulton, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 86–94 a *passim*; Edwards, *Dafydd ap Gwilym*, tt. 79–90 a *passim*; Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd', t. 146 a *passim*.

¹⁷⁵ *Canu Gofyn a Diolch*, t. 178, a cf. y cyfeiriadau at gleddyfau enwog yn chwedlau Siarlymaen a nodwyd uchod.

syniadau wedi eu trosglwyddo drwy gysylltiadau cymdeithasol a milwrol y beirdd a'r noddwyr eu hunain, fel yn achos cywyddau Hywel Swrdwal a Guto'r Glyn i ddathlu urddo noddwyr yn farchogion.

Nid oedd lle yn yr erthygl hon i ymdrin â phob agwedd ar ddelweddaeth a symboliaeth cleddyfau; bu raid hepgor, er enghraifft, y cleddyfau gwaedlyd a grybwyllir drwy gydol y cyfnod dan sylw, o'r 'Gododdin' i gerddi Guto'r Glyn.¹⁷⁶ Yn yr un modd, ni fu'n bosibl rhoi sylw i'r dystiolaeth gyfoethog y mae'r farddoniaeth yn ei chynnig am ffurf cleddyfau a sut y'u defnyddid mewn brwydr.

Fodd bynnag, er bod un agwedd ar hen ddelweddaeth 'arwrol' yr arfau hyn, sef *topos* y cleddyf toredig neu dreuliedig, wedi colli bri yn yr Oesoedd Canol diweddar, mae'n eglur fod y cleddyf disglair a miniog wedi cadw ei hud yn hir, yn nhyb y beirdd, ac wedi ei ddefnyddio ganddynt at amrywiol ddibenion llenyddol. Gallai cleddyf fod yn ddrych i adlewyrchu harddwch a dewrder rhyfelwr; yn gydymaith i'r bardd yn ei anturiaethau milwrol neu garwriaethol; yn drosiad am eiriau miniog, galar neu bryder; yn *Groes Naid* a gynrychiolai rym gwarcheidiol Duw, ac yn un o ategolion pwysicaf seremoni urddo marchog, yn ogystal â bod yn un o'r gwrthrychau chwenychadwy hynny yr oedd yr uchelwyr yn arfer eu rhoi i'w gilydd ac i'w beirdd. A hyd yn oed ymhlith dyfaliadau cywrain y Cywyddwyr, gellir dirnad o hyd fflachiadau o gleddyf melltenol Gwalchmai.¹⁷⁷

JENNY DAY
Aberystwyth

¹⁷⁶ Gw. Day, *Arfau*, 298–301; ac o ran y beirdd diweddarach, gw. e.e. *DG.net*, 75.68 ([c]ledyfrudd); *GG.net*, 78.2 ([g]wyargledd).

¹⁷⁷ Cyflwynwyd fersiynau byrrach o'r erthygl hon yn y 15fed Gyngres Geltaidd Ryngwladol ym Mhrifysgol Glasgow, 13–17 Gorffennaf 2015, ac yn Seminar Cyfraith Hywel, yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 30 Medi 2017, a diolchaf i fynychwyr y ddau sesiwn am eu sylwadau adeiladol. Tardda rhan o'r ymchwil hon o'm doethuriaeth (Day, 'Arfau'), a diolchaf i Brifysgol Aberystwyth am ddyfarnu imi Ysgoloriaeth Ymchwil Uwchraddedig, ac i fy arolygwyr, Gruffydd Aled Williams a Marged Haycock, am eu cyngor a'u cefnogaeth. Rwyf yn ddiolchgar iawn hefyd i Ann Parry Owen a Dafydd Johnston am ddarllen yr erthygl hon a chynnig cywiriadau a sylwadau; fi yn unig, wrth gwrs, sy'n gyfrifol am unrhyw ddiffygion yn y fersiwn terfynol.